# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig i Adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.**

**Medi 2025**

**Cynnwys**


| Rhif/au | Adran | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad: | 4 |
| 2 | Y Cynnig a’r Ymgynghoriad | 4 |
| 3 | Digwyddiadau / Cyfarfodydd Ymgynghori | 5 |
| 4 | Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 5 |
| 5 | Ymateb Disgyblion Ysgol | 6 |
| 6 | Ymateb Estyn | 6 |
| 7 | Ffurflenni ymateb safonol | 10 |
| 8 | Themâu ymateb | 12 |
| 9 | Y camau nesaf | 24 |
| Atodiad A | Rhestr o’r holl fudd-ddeiliaid sy’n derbyn dogfennaeth yr ymgynghoriad. | 26 |
| Atodiad B | Yn dangos sut mae ymatebwyr o wahanol ysgolion yn cefnogi’r cynnig. | 28 |
| Atodiad C | Yn dangos y diddordeb/y berthynas sydd gan yr ymatebwyr gyda’r ysgol y maent yn cysylltu eu hunain â hi. | 29 |
| Atodiad D | Archwiliad o’r ymatebion gan grwpiau amrywiol o ymatebwyr yn ymwneud â’r cynnig. | 30 |
| Atodiad E | Dadansoddiad o ymatebion i’r cwestiynau yn ymwneud â’r Effaith ar y Gymraeg. | 32 |
| Atodiad F | Archwiliad o’r ymatebion o’r digwyddiadau Ymgynghori â Chyngor yr Ysgol a gynhaliwyd yn unigol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. | 36 |
| Atodiad G | Yr ymateb i’r cynnig a baratowyd ar gyfer Estyn ac a dderbyniwyd ganddynt. | 43 |
| Atodiad H | Yr ymateb i’r cynnig a dderbyniwyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol ar ran yr aelodau o staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry. | 47 |

| | | |
|---|---|---|
| Atodiad I | Yr ymateb i'r cynnig a baratowyd ar gyfer Cyngor Tref Saltney ac a dderbyniwyd ganddynt. | 51 |

Caiff y ddogfen hon ei chyhoeddi ar ffurf copi caled, os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi o'r ddogfen ar ffurf wahanol er enghraifft braille neu brint bras, neu os oes angen cymorth arnoch gyda dehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704018 / 704014, neu e-bostiwch saltneyconsultations@flintshire.gov.uk.

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ynglŷn â threfniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
- ymateb i'r rhain trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi;
- amlinellu ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- ymateb i ymateb Estyn trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.

1.2 Dylai'r canlyniadau o'r broses ymgynghori gael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu ar unrhyw argymhelliad i gychwyn y cam nesaf ac i gyhoeddi hysbysiad statudol i fynd i gyfnod 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau i'r cynnig.

## 2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ddydd Mawrth 18 Chwefror 2025, penderfynodd y Cabinet:

Agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer cynnig i gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir ar gyfer disgyblion 3-11 oed a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

2.2 Mae'r Cyngor yn cynnig cyflawni'r newid hwn mewn trefniadaeth drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Agor ysgol gynradd gyfunol ar gyfer disgyblion 3-11 oed ar y ddau safle presennol i ddechrau, tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.
- Agor Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3–11 oed, gyda chapasiti ar gyfer 315 o leoedd llawn amser, ar y safle lle mae Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd. Byddai gan yr ysgol Rif Derbyn Disgyblion o 45 fesul grŵp blwyddyn, gan ei gwneud yn ysgol fynediad un a hanner dosbarth.

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bu'r cyfnod ymgynghori o ddydd Mawrth 3 Mehefin 2025 tan ddydd Gwener 18 Gorffennaf 2025.

2.4 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mawrth 3 Mehefin 2025, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o'r rhai a gafodd y dogfennau i'w gweld yn **Atodiad A**.

2.5 Roedd fersiynau o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn addas i oed plant a phobl ifanc hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint, yn ogystal â dogfen gryno 'Hawdd i'w Darllen' yn crynhoi'r pwyntiau allweddol o'r brif ddogfen ymgynghori. Mae holl fersiynau'r

dogfennau ymgynghori ar gael yn yr adran Moderneiddio Ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

2.6 Dosbarthwyd copïau caled o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood i bobl eu gweld os nad oedd ganddynt fynediad i'r wefan. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

2.7 Darparwyd blwch post yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood fel y gellid postio'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.8 Lluniodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd y ffurflen yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys ffurflen ymateb wedi ei haddasu ac a oedd yn haws i'w defnyddio. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei thrawsnewid yn arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn ar-lein Smart Survey. Cyhoeddwyd y dolenni i'r arolwg a chod QR hefyd ar y wefan yn ystod y cyfnod ymgynghori.

2.9 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn **Atodiad A** e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, a hefyd dolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad sef 3 Mehefin 2025.

2.10 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 3.0 Digwyddiadau / cyfarfodydd ymgynghori

3.1 Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar gyfer staff a llywodraethwyr ar-lein ar gyfer pob ysgol ddydd Llun, Mehefin 30 2025. Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus. Cafodd aelodau o'r gymuned eu gwahodd i gyflwyno cwestiynau drwy'r cyfeiriad e-bost pwrpasol a sefydlwyd ac a gafodd ei gynnwys yn y ddogfennaeth.

## 4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.1 Casglodd y Cyngor 332 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda 326 yn cael eu cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein a safonol. Hefyd derbyniwyd tri ymateb gan Estyn, Cyngor Tref Saltney a'r Undeb Addysg Cenedlaethol, yn ychwanegol at ddwy gŵyn ar e-bost ac un ddeiseb.

4.2 Derbyniwyd deiseb wedi ei llofnodi gyda'r teitl 'Helpwch i Achub Ysgol Gynradd Saltney Ferry!' cyn i'r ymgynghoriad gychwyn ar 3 Ebrill, 2025. Roedd y ddeiseb wedi ei llofnodi gan 597 o unigolion,

4.3 Trefnwyd sesiwn ymgynghori ar gyfer disgyblion ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae canfyddiadau'r sesiynau i'w gweld yn **Atodiad F.**

4.3 Yn ogystal, cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn, mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w weld yn **Atodiad G**.

4.4 Mae sylwadau a ddarparwyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol a Chyngor Tref Saltney wedi eu cynnwys o fewn y dadansoddiad o themâu cyffredinol yr adborth i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi eu nodi yn **Atodiad G** ac **Atodiad I**.

4.5 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan bobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

| Dull cysylltu | Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd |
|---|---|
| Ffurflenni Ymateb Safonol i'r Ymgynghoriad (ar-lein) | 204 |
| Ffurflenni Ymateb Safonol i'r Ymgynghoriad (papur) | 122 |
| Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc (casglwyd ymatebion gan y ddwy ysgol yn ystod eu digwyddiadau ymgynghori) | 0 |
| Llythyrau a Negeseuon E-bost (cwynion) | 2 |
| Llythyrau a Negeseuon E-bost Plant a Phobl Ifanc | 0 |
| Ymatebion Llywodraethwyr Ysgol (dim ymateb ffurfiol gan y Cyrff Llywodraethu ond llenwodd rhai Llywodraethwyr y ffurflen ar-lein a gyfrifwyd uchod) | 0 |
| Ymateb yr Undeb | 1 |
| Ymateb Cyngor Tref Saltney | 1 |
| Ymateb Estyn | 1 |
| Deisebau Ar-lein | 1 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 0 |
| Ymateb Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol | 0 |
| **Cyfanswm y cysylltiadau** | **332** |

## 5.0 Ymateb Disgyblion Ysgol

5.1 Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori i gael llais y disgybl yn y ddwy ysgol gynradd. Cafodd y sesiynau hyn eu hwyluso gan Dîm Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint. Cynhaliodd y ddwy ysgol sesiynau gyda chynrychiolwyr o grwpiau blwyddyn amrywiol, wedi eu cynorthwyo gan aelod o staff. Derbyniodd y plant grynodeb o'r cynnig ac yna cawsant eu gwahodd i rannu eu hadborth cadarnhaol a negyddol, gydag unrhyw awgrymiadau amgen.

5.2 Hefyd cafodd aelodau o Sir y Fflint Ifanc, sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Ieuenctid Sir y Fflint a Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt o Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint, y cyfle i roi adborth yn ystod sesiwn a gynhaliwyd yn Nhŷ Dewi Sant ar Fehefin 23 2025. Mae'r canlyniadau wedi eu nodi yn **Atodiad F.**

## 6.0 Ymateb Estyn

6.1 Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt isod. Mae'r ymateb llawn a dderbyniwyd gan Estyn i'w weld yn **Atodiad G**.

| **Sylwadau Estyn** | **Ymateb CSyFf** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mae'r awdurdod yn disgrifio nifer o faterion i amlinellu pam y byddai adeilad newydd i'r ysgol o fudd. Mae'n nodi fod yr ysgolion presennol yn arddangos ychydig o ddirywiad. Hefyd mae adeiladau presennol yr ysgolion yn cael eu cyflwyno yn y cynnig fel rhai lle mae yna heriau o ran bodloni anghenion addysgol y disgyblion, er enghraifft cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd ac i gefnogi dulliau addysgu effeithiol. | **Nodwyd** |
| Mae'r ffaith bod yr ysgolion wedi eu lleoli mewn ardal breswyl yn golygu bod danfon a chasglu disgyblion o'r ysgol yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni barcio a throi eu cerbydau. Mae'r cynnig hefyd yn rhoi data clir yn dangos fod niferoedd disgyblion yn ystod y 4 blynedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn dipyn is na'r capasiti, gyda rhwng 64 a 120 o leoedd gwag i gyd. | **Nodwyd** |
| Ar y cyfan mae'r cynigydd yn nodi'n glir ac yn deg y buddion a ddisgwylir o ganlyniad i'r newid arfaethedig gan gynnwys uno'r ddwy ysgol yn y tymor byr ac adeiladu'r ysgol newydd erbyn Medi 2028. Mae'n nodi y bydd yr uno ac wedyn ail-leoli'r ysgol i gyfleuster newydd, wedi ei leoli ar safle presennol Ysgol Goffa Saltney Wood, yn darparu digon o leoedd i fodloni anghenion yr ardal leol ac y bydd yn lleihau costau gweithredu yn sylweddol gan y byddai yna un ysgol yn hytrach na dwy. Mae'r awdurdod yn cadarnhau y bydd sefydlu ysgol newydd fodern gyda gwell adnoddau yn darparu gwell cyfleoedd i ddysgu. Roedd y cynnig yn nodi fod cyfleuster newydd ar gyfer yr ysgol yn rhoi'r cyfle i'r naill ysgol a'r llall ddod ynghyd fel un a chyfuno holl brofiad ac arferion gorau'r ddwy ysgol i wella'r canlyniadau dysgu i blant. Mae'r cynnig yn nodi mai hwn yw'r dewis a ffefrir gan y bydd yn lleihau'r nifer helaeth o leoedd gwag yn ysgolion cynradd yr ardal ac yn lleihau costau gweithredu tra'n darparu amgylchedd dysgu modern sy'n addas i'r diben a fydd yn gwella'r cyfleoedd dysgu i'r holl blant. | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried rhai o'r anfanteision posibl yn ymwneud â'r cynnig gan gynnwys cau'r ddwy ysgol ar eu ffurf bresennol a cholli ysgol yn ardal gymunedol Saltney Ferry. Fe fyddai yna effaith ar bellteroedd teithio ar gyfer y disgyblion hynny sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol gynradd gymunedol Saltney Ferry a fyddai'n gorfod teithio i ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Hefyd fe fyddai yna bosibilrwydd o ddiswyddiadau yn gysylltiedig gyda lleihau yr ysgolion i un ysgol yn hytrach na dwy. | **Nodwyd** |
| Mae adroddiad effaith arall sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn nodi y byddai'r effaith ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn isel ac na fyddai yna unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry nac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai'r cyfleusterau modern a fyddai ar gael yn yr ysgol newydd yn gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Fodd bynnag nid yw'n ystyried y straen posibl i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol a fydd nawr yn gorfod teithio ymhellach i'w hysgol newydd o Fedi 2028. | Rydym yn cydnabod arsylwad Estyn yn ymwneud â'r effaith bosibl ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a allai fod yn gorfod teithio ymhellach i'r ysgol newydd o Fedi 2028. Tra bod yr asesiad o effaith gwreiddiol yn nodi'r amhariad lleiaf posibl o ganlyniad i barhad y ddarpariaeth ADY, rydym yn cydnabod y gallai cynnydd o ran teithio olygu heriau i rai disgyblion. I liniaru hyn fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a gwasanaethau perthnasol i ddarparu cefnogaeth briodol. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau trawsnewid wedi eu teilwra a hyfforddiant i staff yn canolbwyntio ar helpu disgyblion gydag ADY i reoli newid yn effeithiol. Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr drwy adleoli i safleoedd newydd, gan gynnwys pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae hyn wedi golygu mwy o gefnogaeth i ysgolion a'r holl ddysgwyr gyda mesurau penodol fel ymweliadau amser tawel i helpu disgyblion gydag ADY i addasu i'r newidiadau'n llyfn. |
| Bydd dyluniad yr ysgol newydd yn ymgorffori mewnbwn gan fudd-ddeiliaid yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer ei chwricwlwm a'i hethos cyffredinol, a thrwy hynny o bosibl sicrhau y bydd yr ysgol yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar les myfyrwyr a'u cyfranogiad wrth ddysgu. | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| Mae'r cynnig yn cadarnhau y bydd yr ysgol newydd yn rhoi gwell mynediad i ddisgyblion a staff at adnoddau a chyfleusterau gan gysylltu hyn gyda gwella'r profiadau addysgu a dysgu cyffredinol. Yn ogystal â hynny mae'r cynigydd yn datgan y bydd yr ysgol yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol ac ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd. | |
| O ran staffio, mae'r cynnig yn nodi na fyddai uno'r ysgolion yn y tymor byr yn cael fawr ddim effaith ar y trefniadau staffio i ddechrau, gan y byddai'r ysgol gyfunol yn dal i weithredu ar y safleoedd presennol cyn symud i'r safle newydd. Byddai corff llywodraethu'r ysgol newydd, gan weithio gydag adran Adnoddau Dynol yr awdurdod lleol, yn penodi Pennaeth i arwain yr ysgol yn ystod y cyfnod cychwynnol ar y safleoedd presennol. Yn dilyn hynny, bydd y corff llywodraethu, y Pennaeth ac adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol yn sefydlu strwythur staffio ar gyfer yr adleoli i'r ysgol newydd. Mae'r cynnig hwn yn mynnu y bydd yn darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff drwy rannu arferion gorau a chynlluniau datblygu proffesiynol, ac o bosib cynnig gwell cyfleoedd i bobl symud ymlaen yn eu gyrfaoedd gan y bydd mwy o swyddi ar gyfer rheolwyr canol ac uwch arweinwyr mewn ysgol fwy. | **Nodwyd** |
| Mae'r cynnig yn cynnwys sawl adroddiad effaith, gan gynnwys un ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae hyn yn nodi y darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i bob disgybl ysgol gynradd sy'n byw ddwy filltir neu fwy o'u hysgol agosaf, neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn ac ni fydd y llwybrau sydd ar gael i gerdded rhwng y cartref a'r ysgol yn newid, oni bai eu bod eisoes wedi'u gwella. Mae'r dadansoddiad cyfredol gan yr awdurdod lleol yn dangos na fyddai unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu un ai Ysgol Gynradd Saltney Ferry neu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd yn gymwys i gael cludiant rhwng y cartref a'r ysgol pe byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | **Nodwyd** |

6.2 Mae ymateb Estyn yn nodi ei farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal fan leiaf.


## 7.0 Ffurflenni Ymateb Safonol

7.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i ganfod:

- ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb;
- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio, ac unrhyw sylwadau yr oeddent yn dymuno eu gwneud;
- yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- a oeddent am gael eu hysbysu am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori;
- Gwybodaeth am Gydraddoldeb.


7.2 Ar y ffurflenni ymateb gofynnwyd i bobl gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, darpar riant, llywodraethwr, athro/athrawes, staff cefnogi, aelod o'r gymuned neu rywun arall. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad C**.

7.3 Cafwyd 48.77% o'r ymatebion cyffredinol gan rieni/gofalwyr presennol Ysgol Gynradd Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Ferry. Cafwyd 56% o'r ymatebion rhieni/gofalwyr presennol o Ysgol Gynradd Saltney Ferry tra cafwyd 36% o'r ymatebion rhieni/gofalwyr presennol o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.




7.4 Roedd 65.03% o'r ymatebwyr yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Saltney Ferry tra roedd 37.42% yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Which school/s do you associate yourself with?




7.5 Roedd 88.34% o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r cynnig. Roedd 95.8% o'r ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig tra roedd 80.3% o'r ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn anghytuno gyda'r cynnig. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad B**.

**Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maintained school operating on the current two sites whilst a new building is approved and constructed.**

| Answer Choices | Responses | | |
|---|---|---|---|
| Yes | | 11.66% | 38 |
| No | | 88.34% | 288 |
| Answered: 326 Skipped: 0 | Response Total: | | 326 |

7.6 Roedd 88.7% o'r rhieni/gofalwyr presennol yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig. Roedd 92.3% o ddarpar rieni yn anghytuno gyda'r cynnig fel roedd 85.7% o lywodraethwyr. Roedd 50% o athrawon/staff cefnogi yn cytuno gyda'r cynnig tra roedd 50% yn anghytuno. Roedd 58.3% o'r athrawon/staff cefnogi a oedd yn cytuno â'r cynnig yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Roedd 100% o'r athrawon/staff cefnogi o Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad D**.

| | What is your interest/relationship with the school/s you identify with? | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint... | | I am a parent/carer of a pupil at the school | I am a pupil at the school | I am a prospective parent/carer of a pupil at the school | I am a teacher/other member of staff at the school | I am a governor at the school | I am a member of the community | Other (please specify): | Row Totals |
| | Yes | 18<br>11.3% | 0<br>0.0% | 1<br>7.7% | 9<br>50.0% | 1<br>14.3% | 6<br>7.2% | 3<br>7.0% | 38<br>11.7% |
| | No | 141<br>88.7% | 3<br>100.0% | 12<br>92.3% | 9<br>50.0% | 6<br>85.7% | 77<br>92.8% | 40<br>93.0% | 288<br>88.3% |
| | Column Total | 159<br>48.8% | 3<br>0.9% | 13<br>4.0% | 18<br>5.5% | 7<br>2.1% | 83<br>25.5% | 43<br>13.2% | 326<br>100% |

7.7 Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau ychwanegol ynglŷn ag a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Cafwyd 261 o sylwadau unigol. Mae dadansoddiad o amlder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau a'r rheiny gan Estyn, Cyngor Tref Saltney a'r Undeb Addysg Cenedlaethol isod. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio i'r categorïau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo / penderfynu arnynt.

## 8.0 THEMÂU YMATEB

| Thema | Ymateb CSyFf |
|---|---|
| **1. Gwrthwynebiad Cryf i Gau Ysgolion (165 o sylwadau)**<br>• Roedd teimlad aruthrol yn gwrthwynebu'r cau a'r uno arfaethedig.<br>• Mae nifer o ymatebwyr yn mynegi nad oedd y cynnig hwn yn rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol, gan arwain at deimladau o ddiffyg ymddiriedaeth a rhwystredigaeth.<br><br>*'Gadewch lonydd iddynt. Mae rhieni a phlant eisiau i'w hysgolion gael llonydd!'*<br><br>*'Peidiwch â chefnogi cau'r ysgolion'*<br><br>*'Mae hyn yn effeithio ar ein plant…gadewch yr ysgolion hyn fel y maent er mwyn iddynt ffynnu.'* | Nid yw'r cynnig i gau ac uno'r ddwy ysgol yn Saltney wedi ei gyflwyno'n ysgafn. Mae wedi ei yrru gan sawl ffactor dybryd.<br><br>Roedd y cynnig gwreiddiol yn rhan o broses ymgysylltu anffurfiol. Y bwriad bob amser oedd esblygu yn seiliedig ar adborth, ac mae wedi gwneud hynny. Fe helpodd adborth cynnar i siapio'r ymgynghoriad ffurfiol, gan sicrhau fod lleisiau o'r gymuned yn cael eu clywed o'r dechrau.<br><br>Mae nifer o ysgolion yn profi gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr, sy'n effeithio ar gyllid, staffio a'r gallu i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys.<br><br>Mae cynnal adeiladau niferus nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yn gynyddol anodd. Mae adnoddau yn cael eu hymestyn ac mae'n rhaid i ni sicrhau fod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.<br><br>Gall uno helpu i sicrhau fod gan yr holl ddisgyblion fynediad i'r un cyfleoedd, staff arbenigol a chyfleusterau, rhywbeth y gall ysgolion llai ei chael yn anodd i'w ddarparu'n gyson.<br><br>Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys addasu i newidiadau demograffig a sicrhau bod stad ein hysgol yn addas i'r diben yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.<br><br>Fe wyddom fod newid yn anodd, yn arbennig pan fo'n effeithio ar blant a theuluoedd yn uniongyrchol. Dyma pam rydym yn adolygu'r holl adborth yn ofalus cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Rydym yn parhau yn ymrwymedig i weithio gyda chymunedau i ddod o hyd i'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr. |
| **2. Pryderon am Bellter a Theithio'n Ddiogel (119 o sylwadau)** | Rydym yn llwyr gydnabod y pryderon a godwyd yn ymwneud â phellteroedd teithio cynyddol a |

- Mae pryder mawr yn ymwneud â'r pellter cynyddol y byddai angen i blant deithio, yn arbennig o Ysgol Gynradd Saltney Ferry i Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Mae pellteroedd cerdded o hyd at 1.7 o filltiroedd bob ffordd yn cael ei ystyried yn afresymol, yn arbennig ar gyfer plant iau a'r rhai hynny gydag anghenion ychwanegol.
- Crybwyllwyd llwybrau cerdded peryglus gan nifer, gan gynnwys ffyrdd prysur a chroesfannau annigonol.
- Mae diffyg cludiant cyhoeddus a dim cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn dwysáu'r pryder i deuluoedd nad ydynt yn gyrru a theuluoedd incwm isel.

*'Mae cerdded o Ysgol Gynradd Saltney Ferry i Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn anniogel gan fod y llwybrau yn gul ac mae ar hyd priffordd brysur.'*

*'Mae'n hurt sut rydych yn disgwyl i'r rhieni hyn a'r plant bach i gerdded mor bell â hynny ar ffordd brysur.'*

*'Mae'n rhy bell i blant gerdded i'r ysgol, gan groesi llawer o ffyrdd prysur gan gynnwys y brif ffordd trwy dref Saltney.'*

diogelwch - yn arbennig o ran plant yn cerdded o Ysgol Gynradd Saltney Ferry i Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.  Mae teuluoedd wedi amlinellu yn glir yr heriau y byddai hyn yn ei gyflwyno i ddisgyblion iau, y rhai hynny gydag anghenion ychwanegol a'r rhai hynny heb fynediad at gar.  Mae materion penodol fel ffyrdd prysur, croesfannau cyfyngedig i gerddwyr a diffyg cludiant cyhoeddus wedi eu hamlygu yn ystyriol ac yn gyson.

Mae'r pryderon hyn yn ddilys ac yn cael eu deall yn fawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun ehangach: ar draws Sir y Fflint a Chymru, mae nifer o blant cynradd yn cerdded hyd at ddwy filltir fel mater o drefn i gyrraedd eu hysgolion. Mae hyn nid yn unig yn arfer cyffredin ond hefyd yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol yn ymwneud â theithio cynaliadwy a hyrwyddo ffordd o fyw iach.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn cael eu cefnogi gan fesurau diogelwch priodol a datrysiadau ymarferol. Ein nod yw i gydbwyso anghenion unigol gyda buddion addysgol a chymunedol ehangach, gan sicrhau y gall pob plentyn gael at yr ysgol yn ddiogel ac yn hyderus.

Bydd adolygiad cynhwysfawr o isadeiledd presennol y ffyrdd yn cael ei gynnal fel rhan o asesiad ffurfiol o lwybrau cerdded diogel. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad manwl o ddiogelwch y ffyrdd, croesfannau i gerddwyr a hygyrchedd cyffredinol y safle newydd arfaethedig. Hefyd bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei asesu yn unol â pholisi lleol i sicrhau tegwch a chysondeb. I gefnogi'r broses hon bydd arolygon cludiant llawn yn cael eu cynnal i archwilio argaeledd parcio, mynediad i'r safle a llwybrau teithio. Mae'r asesiadau hyn yn hanfodol i sicrhau, pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, fod trefniadau priodol a diogel mewn grym ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd.




* Llwybr cerdded a beicio arfaethedig yn cysylltu Ysgol Gynradd Saltney Ferry â'r safle adeiladu a ddewiswyd yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Cynhaliwyd asesiad yn ymwneud â'r pellteroedd cerdded sy'n bodoli o gyfeiriadau cartref myfyrwyr i'r lleoliad newydd a awgrymir yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood fel y nodir isod. Mae'r canfyddiadau'n dangos fod 52.94% o'r myfyrwyr presennol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn byw o fewn 1.5 milltir i'r safle, tra bod 82.67% o fyfyrwyr presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood wedi eu lleoli o fewn milltir i'r safle arfaethedig. Mae 10% o'r myfyrwyr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn byw dros 2 filltir o'r lleoliad arfaethedig, tra bod 4% o fyfyrwyr presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn byw y pellter hwn o'r lleoliad arfaethedig. Nid yw pob dysgwr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac sy'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd yn mynychu eu hysgol agosaf, ond maent wedi dewis yr ysgolion hyn gan fod eu rhieni'n ffafrio hynny.

Yn seiliedig ar ddata disgyblion presennol, nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn gymwys am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, gan fod gan y rhai hynny sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol y dewis o ysgol gymwys arall sydd wedi ei lleoli yn nes at eu cyfeiriad cartref.

**<u>Disgyblion Ysgol Gynradd Saltney Ferry - Y pellter i'r safle arfaethedig yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood o'r cyfeiriad cartref</u>**

| Distance (miles) | | | Total | % |
|---|---|---|---|---|
| 0 | - | 0.5 | 1 | 0.84% |
| 0.51 | - | 1 | 31 | 26.05% |
| 1.001 | - | 1.5 | 31 | 26.05% |
| 1.51 | - | 2 | 44 | 36.97% |
| | > | 2 | 12 | 10.08% |
| | | | **119** | **100.00%** |

**<u>Disgyblion Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood - Y pellter i'r safle arfaethedig yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood o'r cyfeiriad cartref</u>**

| Distance (miles) | | | Total | % |
|---|---|---|---|---|
| 0 | - | 0.5 | 25 | 16.67% |
| 0.50001 | - | 1 | 99 | 66.00% |
| 1.001 | - | 1.5 | 20 | 13.33% |
| 1.51 | - | 2 | 0 | 0.00% |
| | > | 2 | 6 | 4.00% |
| | | | 150 | 100.00% |

* Yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2025.

**3. Yr Effaith ar Les ac Iechyd Meddwl Plant (82 o sylwadau)**

- Pryderon a godwyd ynglŷn â sut y bydd yr amhariad a'r newid amgylchedd yn effeithio ar blant, yn arbennig y rhai hynny gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae nifer yn poeni y bydd plant sy'n dibynnu ar drefn ddyddiol a chysondeb yn llithro'n ôl yn emosiynol neu'n ymddygiadol.
- Mae'r sylwadau yn amlygu'r pwysau, gorbryder a'r dryswch sydd eisoes yn cael ei brofi gan blant yn ystod y cyfnod ymgynghori.

*'Mae hyn yn effeithio eu hiechyd meddwl gyda phryder a gorbryder… cymaint o ddagrau dros yr wythnos ddiwethaf.'*

*'Mae gan fy mhlentyn…Awtistiaeth, mae wedi cymryd llawer o amser iddo fod yn gyfforddus yn mynd i'r ysgol a theimlo'n ddiogel.'*

*'Bydd y cerdded…yn cael effaith anferth ar blant a'u hiechyd meddwl.'*

Rydym yn cydnabod y pryder sydd wedi ei fynegi ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig hwn ar les plant, yn arbennig y rhai hynny gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu sy'n dibynnu ar drefn ddyddiol a sefyllfa gyfarwydd. Rydym yn deall fod y posibilrwydd o newid yn dod â gwir bryder i nifer o deuluoedd am orbryder cynyddol, gofid emosiynol neu lithro'n ôl o ran ymddygiad. Rydym yn hynod o ystyriol o'r adroddiadau fod rhai plant eisoes yn teimlo ansefydlogrwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau o adleoli i safleoedd newydd, gan gynnwys pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys gwella'r cymorth i ysgolion a'r holl ddysgwyr, gyda mesurau wedi eu teilwra fel ymweliadau amser tawel, crwydro adeiladau rhithiol ac ymweliadau wedi eu rheoli â safleoedd adeiladu - wedi eu dylunio'n bennaf i helpu dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol i addasu'n llyfn.

**4. Colli Ethos Ysgol Fach a Gofal Wedi'i Bersonoli (91 o sylwadau)**

- Mae maint bach yr ysgolion presennol yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n ganolog i'w llwyddiant.
- Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi dosbarthiadau bach, perthnasoedd cryf gyda staff a sylw unigol i blant.
- Roedd pryderon y byddai dosbarthiadau mawr mewn ysgol

Rydym yn cydnabod fod yr ethos ysgolion bach, gyda'i chymuned glós, dosbarthiadau bach a gofal personol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan deuluoedd a staff fel ei gilydd. Mae llawer o ymatebwyr wedi mynegi pryder y gallai ysgol unedig fwy effeithio ar y perthnasoedd cryf a'r sylw unigol sy'n cefnogi dysgu a lles plant. Tra rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon hyn, mae'n bwysig cydnabod fod nifer o ysgolion mwy yn meithrin amgylcheddau cynhwysol yn gyson lle mae perthnasoedd cryf yn ffynnu a lle caiff anghenion unigol eu bodloni'n effeithiol. Nid yw'r rhinweddau hyn yn gysylltiedig ag ysgolion bach yn unig,

| | |
|---|---|
| unedig newydd yn lleihau ansawdd gofal bugeiliol a dysgu.<br><br>*'Dwi'n gwybod na fyddai fy mhlant yn ymdopi mewn ysgol fawr.'*<br><br>*'Cadwch nhw'n fach fel bod [plant] yn dysgu'n well. Mae athrawon yn gwneud yn wych drwy'r dull hwn.'*<br><br>*'Mae dosbarthiadau llai yn caniatáu ar gyfer dysgu mwy personol a chefnogaeth wedi ei theilwra.'* | maent yn nodwedd o arfer da, waeth beth fo maint yr ysgol.<br><br>Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau o adleoli o safleoedd llai i safleoedd newydd mwy. Os caiff newidiadau eu hystyried, fe fyddem yn archwilio dulliau gydag arweinyddiaeth yr ysgol i gynnal yr ethos hwn o gymunedau dysgu bach o fewn lleoliadau mwy, fel:<br><br>• Creu grwpiau bugeiliol llai neu 'deuluoedd ysgol' o fewn ysgol fwy.<br>• Sicrhau parhad staff fel bod plant yn cadw perthnasoedd yr ymddiriedir ynddynt.<br>• Dylunio gofodau sy'n teimlo'n groesawgar a phersonol.<br>• Cadw maint dosbarthiadau yn hawdd eu trin. |
| **5. Pwysigrwydd Ysgolion i'r Gymuned Leol (74 sylw)**<br>• Caiff Ysgol Gynradd Saltney Ferry ei disgrifio'n barhaus fel canolbwynt cymunedol ac un o'r asedau cyhoeddus olaf sydd ar ôl yn yr ardal.<br>• Mae pryderon y byddai ei chau yn erydu hunaniaeth gymunedol a chydlyniant cymdeithasol.<br>• Mae sawl cenhedlaeth o deuluoedd wedi mynychu'r ysgolion, gan gynyddu'r synnwyr o waddol a pherthyn.<br><br>*'Ysgol Gynradd Saltney Ferry yw'r unig adeilad cymunedol sydd ar ôl yn Saltney Ferry.'*<br><br>*'Os yw'n mynd yna does gennym ni ddim byd arall… roedd popeth yn bersonol iawn.'*<br><br>*'Mae'n fwy nag ysgol yn unig - dyma ein canolbwynt.'* | Tra caiff arwyddocâd emosiynol a hanesyddol y ddwy ysgol ei gydnabod a'i barchu, mae'n rhaid i benderfyniadau am eu dyfodol gael ei arwain gan flaenoriaethau strategol hirdymor, cynaliadwyedd a'r canlyniadau addysgol gorau posibl ar gyfer ein dysgwyr. Mae'r ystyriaethau hyn, er yn anodd, yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud dewisiadau cyfrifol sy'n cefnogi anghenion ein cymunedau nawr ac i'r dyfodol.<br><br>Er bod un o'r ysgolion yn cael ei disgrifio fel 'canolbwynt cymunedol' ei phrif swyddogaeth yw i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Os yw niferoedd disgyblion yn gostwng, gallai safonau gael eu heffeithio, neu gall yr adeilad ddod yn un nad yw'n addas i'r diben mwyach, ac mae'n bosibl nad yw ei barhad er y budd gorau i'r dysgwyr. Er yn werthfawr ni all defnydd cymunedol gyfiawnhau cynnal ysgol nad yw'n hyfyw yn addysgol nac yn ariannol mwyach.<br><br>Mae'n rhaid pwyso'r honiad mai Ysgol Gynradd Saltney Ferry yw'r "unig adeilad cymunedol sydd ar ôl" yn erbyn argaeledd lleoliadau eraill yn ardal Saltney yn ehangach - gan gynnwys yr eglwys, y ganolfan gymunedol ac ysgolion eraill gyda mynediad i'r gymuned. Mae hunaniaeth gymunedol yn bwysig, ond fe all gael ei gadw a'i gryfhau drwy ddefnydd ar y cyd o ofodau a rennir, ac nid o reidrwydd drwy gynnal isadeiledd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol.<br><br>Mae arwyddocâd mawr i waddol sydd wedi trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ac mae'n haeddu parch. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig i ymateb yn ystyrlon i ddemograffeg sy'n esblygu, realiti ariannol a disgwyliadau addysgol. |

| | |
|---|---|
| | Bydd dyfodol addysgol Sir y Fflint yn cael ei siapio gan benderfyniadau strategol sy’n cynnwys cydgrynhoi adnoddau, buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu modern a hyrwyddo mynediad teg i bob dysgwr. Er bod traddodiad yn cynnig persbectif gwerthfawr, mae’n rhaid i gynllunio cynaliadwy gael ei arwain gan anghenion y presennol a dyheadau’r dyfodol.<br><br>Gall cynnal ysgolion bach gyda lleoedd gwag sylweddol ddargyfeirio adnoddau o ysgolion eraill sy’n gwasanaethu poblogaethau mwy neu sydd â mwy o anghenion. Mae penderfyniadau i gau yn aml yn cael eu gwneud i ailddyrannu cyllid yn decach, gwella sefydlogrwydd staffio a sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn elwa o gwricwlwm eang a chytbwys. Mae’n rhaid i ddadleuon emosiynol gael eu cydbwyso yn erbyn y gwir gostau a’r cyfleoedd a gaiff eu colli o gadw ysgol ar agor nad yw o bosibl yn bodloni’r meini prawf strategol.<br><br>Tra bod cyfanswm yr adborth yn sylweddol ac yn cael ei werthfawrogi, nid yw ymgynghori bob amser yn arwain at gadw. Ei ddiben yw i sicrhau fod pob llais yn cael ei gydnabod a’i ystyried. Yn y pen draw mae’n rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud o fewn fframwaith cyfrifoldebau, rhwymedigaethau statudol a chynllunio strategol hirdymor y Cyngor sy’n cynnwys sicrhau galluogi mynediad teg i addysg o ansawdd, rheoli adnoddau yn effeithiol ac ymateb i newidiadau mewn demograffeg a pholisi. Hefyd mae’n rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud o fewn telerau cyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae gwerth emosiynol a hanesyddol i’r ddwy ysgol, ond mae’n rhaid asesu’r achos dros eu cadw yn feirniadol yn erbyn safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol a blaenoriaethau strategol. Mae dyfodol addysg yn yr ardal yn ddibynnol ar wneud penderfyniadau anodd sydd er y lles mwyaf, hyd yn oed pan maent yn herio cysylltiadau hirsefydlog. |
| **6. Materion Ymddiriedaeth a Thryloywder (55 o sylwadau)**<br>• Cyhuddiadau fod y cynnig wedi ei newid heb ymgynghori dyladwy.<br>• Y gred fod camwybodaeth wedi ei chylchredeg (e.e. risg o lifogydd, cyfyngiadau parcio).<br>• Galwadau i’r cyngor wrando o ddifrif ar blant a rhieni.<br><br>*‘Nid oedd hyn ar y cynnig gwreiddiol o gwbl.’* | Roedd trafodaethau ar y dewisiadau o ran model ar gyfer ardal Saltney yn rhan o broses ymgysylltu anffurfiol. Y bwriad ar hyd yr amser oedd esblygu yn seiliedig ar adborth, ac mae wedi gwneud hynny. Fe helpodd adborth cynnar i siapio’r ymgynghoriad ffurfiol, gan sicrhau fod lleisiau o’r gymuned yn cael eu clywed o’r dechrau.<br><br>Cafodd yr holl asesiadau technegol, gan gynnwys llifogydd a pharcio, eu cynnal gan arbenigwyr allanol annibynnol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gamwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| *'Llwyth o gelwyddau wedi eu creu hefyd gan CSyFf yn ymwneud â llifogydd a phob math o bethau.'*<br><br>*'Mae gwybodaeth ffug wedi bod yn mynd o amgylch ein hysgol.'* | Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n frwd gyda phlant a rhieni yn ystod y broses ymgysylltu gynnar drwy arolygon ac ymweliadau ysgolion. Mae plant a rhieni wedi chwarae rhan allweddol yn siapio'r cynnig. Mae eu mewnbwn wedi ei werthfawrogi ac wedi ei ymgorffori drwy gydol y broses.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth ffug a allai fod wedi ei rhannu o amgylch yr ysgolion. Rydym yn annog pawb i gyfeirio at ddogfennau swyddogol yr ymgynghoriad. |
| **7. Gwerth Nodweddion Unigryw Ysgol (43 o sylwadau)**<br>• Caiff fferm yr ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ei chanmol yn aml.<br>• Caiff ei ystyried fel adnodd addysgol a lles unigryw sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad disgyblion.<br>• Roedd pryderon y byddai hyn yn cael ei golli yn y newidiadau arfaethedig.<br><br>*'Mae gan yr ysgol fferm… ased enfawr i'r ysgol hon, dyma'r unig beth y mae'r plant yn siarad amdano.'*<br><br>*'Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry fferm ysgol - mae'r fferm wedi gwella dysgu yn yr awyr agored yn sylweddol.'*<br><br>*'Mae fy mab wrth ei fodd yn gweld yr anifeiliaid bob dydd.'* | Tra bod y fferm ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry wedi derbyn sylwadau cadarnhaol, mae'n rhaid pwyso ei werth canfyddedig yn erbyn blaenoriaethau addysgol ehangach ac ystyriaethau ymarferol.<br><br>Nid yw'r fferm wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor. Mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â chydymffurfedd gyda safonau iechyd, diogelwch a diogelu. Heb gefnogaeth swyddogol, mae ei hyfywedd hirdymor a'i hintegreiddiad i'r cwricwlwm yn ansicr.<br><br>Mae dysgu yn yr awyr agored yn werthfawr, ond nid yn gyfyngedig i fferm yn unig. Mae ysgolion eraill yn defnyddio rhaglenni dysgu seiliedig ar natur, partneriaethau gyda ffermydd lleol neu ganolfannau bywyd gwyllt a gerddi ysgol ac eco brosiectau yn llwyddiannus. Gall y dewisiadau amgen hyn fod yn fwy cynhwysol, gallant ehangu'n gyflym ac mae modd eu halinio gyda safonau'r cwricwlwm.<br><br>Dim ond un ysgol yn unig sy'n elwa o'r fferm gan greu anghyfartalwch ar draws y gymuned ehangach. Mae newidiadau strategol yn anelu i sicrhau fod gan bob disgybl fynediad i brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Dylai adnoddau gael eu dosbarthu'n deg i gefnogi'r holl ddysgwyr, ac ni ddylent fod wedi eu canoli mewn un lleoliad.<br><br>Mae cynnal a chadw fferm yn golygu costau parhaus, staffio a rheoli risg. Heb drosolwg y Cyngor fe allai fod yna fylchau mewn atebolrwydd a chynaliadwyedd.<br><br>Mae sylwadau fel "dyma'r unig beth y mae'r plant yn siarad amdano" yn adlewyrchu ymlyniad emosiynol, ac nid o reidrwydd canlyniadau addysgol. Tra bo mwynhad disgyblion yn bwysig, rhaid i benderfyniadau gael eu seilio ar dystiolaeth, tegwch a nodau strategol. |

| | |
|---|---|
| | Byddai adeilad ysgol newydd yn darparu cyfleusterau modern, pwrpasol wedi eu dylunio i wella dysgu ar draws bob maes o'r cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys mannau penodol ar gyfer gwyddoniaeth, technoleg, a phynciau creadigol, yn ogystal â pharthau dysgu awyr agored hyblyg, ardaloedd synhwyraidd ac anogaeth, a gwell hygyrchedd i bob disgybl. Gallai hefyd gynnwys mannau cymunedol i gefnogi ymgysylltu lleol, lleoliad cyn-ysgol ar y safle i gryfhau darpariaeth blynyddoedd cynnar a mannau dysgu awyr agored wedi eu dylunio'n dda i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a lles. Byddai cyfleusterau o'r fath yn cynnig cyfleoedd cynhwysol sy'n adlewyrchu anghenion yr holl ddysgwyr a'r gymuned ehangach |
| **8. Pryderon am Gost a Gwerth am Arian (38 o sylwadau)**<br>• Mae nifer yn dadlau fod yr adeilad newydd yn ddrud a diangen (£12 miliwn) o'i gymharu ag uwchraddio'r ysgolion presennol (a amcangyfrifir a fyddai o dan £350,000).<br>• Mae nifer o sylwadau yn herio'r syniad na ellir bodloni targedau carbon newydd drwy ôl-osod.<br>• Mae yna syniad cyffredinol fod cymhelliad ariannol yn cael blaenoriaeth dros anghenion addysgol.<br><br>*'Am £12.5 miliwn fe allwch fynd ymhell heb yr angen i adeiladu ysgol newydd.'*<br><br>*'Pam gwario miliynau ar ysgol newydd pan gellir rhoi arian i ysgolion cymunedol i'w gwella ar gost llawer llai.'*<br><br>*'Gwariwch yr arian ar wella'r ysgolion presennol.'* | Rydym yn deall ac yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd yn ymwneud â chyllid a buddsoddiad mewn cyfleusterau ysgolion. Mae'n bwysig egluro y byddai unrhyw brosiect cyfalaf ysgol newydd yn cael ei gefnogi'n bennaf gan raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu 65% o werth cyfalaf y prosiect. Mae'r cyllid hwn yn ddibynnol ar achos busnes cadarn ac sydd wedi ei gymeradwyo. Caiff y 35% sy'n weddill ei ariannu drwy fenthyca cyfalaf y Cyngor ei hun, sy'n cynrychioli ymrwymiad ariannol sylweddol a buddsoddiad sydd werth miliynau yn ardal Saltney.<br><br>Ni fyddai uwchraddio'r ysgolion presennol i safon addas yn denu'r buddsoddiad hwn ac yn hytrach na hynny byddai'n dibynnu ar Raglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw y Cyngor sy'n ddull mwy cyfyngedig gan fod y cyllid yn sylweddol lai ac yn cael ei ddosbarthu ar draws y rhwydweithiau ysgol yn seiliedig ar flaenoriaethau o ran cyflwr. Yn aml mae adeiladau hŷn yn gofyn am atgyweiriadau aml a chostus o ran y gwaith plymio, y to, y system wresogi a'r systemau trydanol, gan roi straen gynyddol ar adnoddau. Mewn cyferbyniad â hynny byddai buddsoddi mewn ysgolion modern, sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol, yn cynnig gwerth hirdymor. Mae'r adeiladau hyn wedi eu dylunio ar gyfer cynaliadwyedd ac yn cynnwys gwell inswleiddio, paneli solar, systemau ynni clyfar ac yn bwysicach na dim byddant yn gweithredu yn ddi-garbon net. Maent nid yn unig yn lleihau costau cyfleustodau, ond maent hefyd yn creu amgylcheddau dysgu mwy effeithlon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad undeb addysg yr NEU yn ymwneud â chyllid refeniw, byddai'r dyraniad a amcangyfrifir o ran cyllid ar gyfer ysgol newydd yn cael ei seilio ar niferoedd y disgyblion ar gapasiti |

| | |
|---|---|
| | llawn, yn unol â fformiwla gyllido ysgolion y Cyngor. Fel gyda phob ysgol pe byddai nifer y disgyblion yn gostwng yn is na'r capasiti, byddai lefel y cyllid refeniw yn gostwng yn unol â hynny, gan sicrhau tegwch ar draws system yr ysgolion. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethwyr a staff i gefnogi cynllunio ariannol a sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio at gynnal darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr. |
| **9. Tarfu yn Ystod y Cyfnod Adeiladu (22 o sylwadau)**<br>• Pryderon am sŵn, diogelwch a cholli gofod awyr agored i ddisgyblion yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu.<br>• Codwyd cwestiynau am logisteg, gan gynnwys gallu un pennaeth i oruchwylio dau safle.<br><br>*'Bydd y tarfu tra bo'r adeilad yn cael ei adeiladu yn effeithio'r gofod dysgu ac awyr agored.'*<br><br>*'Dwy flynedd o darfu ar addysg y plant wrth i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu.'*<br><br>*'Bydd hyn yn tarfu gormod ar y plant.'* | Mae gan y cyngor brofiad helaeth a llwyddiannus o ran cefnogi ysgolion drwy brosiectau datblygu cyfalaf. Caiff strategaethau a brofwyd eu rhoi mewn grym i leihau'r tarfu yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynnwys:<br><br>• Rhwystrau acwstig a threfnu gwaith swnllyd y tu allan i'r oriau dysgu craidd.<br>• Protocolau diogelwch llym, ffensys diogel a llwybrau mynediad ar wahân ar gyfer cerbydau adeiladu.<br>• Ad-drefnu mannau awyr agored dros dro neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol gerllaw i gynnal chwarae a gweithgarwch corfforol.<br><br>Gyda chynllunio diogel ac adeiladu fesul cam, fe roddir blaenoriaeth i barhad dysgu. Rhagwelir y bydd adeiladau presennol yr ysgol yn parhau yn weithredol yn ystod y cyfnod adeiladu i sicrhau fod y disgyblion yn parhau mewn amgylchedd dysgu sefydlog.<br><br>Mae'r Cyngor yn flaenorol wedi cyflawni prosiectau tebyg heb unrhyw effaith fawr ar ganlyniadau disgyblion, o ganlyniad i gydweithio'n agos gydag arweinwyr yr ysgol a chontractwyr.<br><br>Mae llawer o ysgolion yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws sawl safle gydag un pennaeth, wedi ei gefnogi gan dimau arwain cryf, gan gynnwys dirprwy benaethiaid, rheolwyr safle a staff gweinyddol. Mae'r Cyngor yn darparu arweiniad a chefnogaeth weithredol i sicrhau fod strwythurau rheoli effeithiol mewn grym. Gall y model hwn hefyd greu cyfleoedd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth o fewn yr ysgol.<br><br>Tra bo tarfu dros dro yn rhan naturiol o unrhyw brosiect adeiladu, mae hanes y Cyngor o ran rheoli datblygiadau mewn ysgolion yn sicrhau fod risgiau yn cael eu lliniaru a bod lles disgyblion yn cael ei flaenoriaethu. Mae'r anghyfleustra tymor byr yn cael ei wrthbwyso gan fuddion addysgol, amgylcheddol a chymunedol hirdymor yr ysgol newydd. |

| | |
|---|---|
| **10. Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a'r Galw (11 sylw)**<br>• Mae'r sylwadau yn cyfeirio at ddatblygiadau tai diweddar a'r galw cynyddol am leoedd yn yr ysgol.<br>• Roedd pryder y gallai fod yna ddiffyg capasiti yn yr ysgol newydd i wasanaethu cenedlaethau'r dyfodol, yn arbennig gyda'r posibilrwydd o gau ysgolion ffydd lleol eraill.<br><br>*'Mae datblygiad eiddo yn cynnwys 70 o gartrefi wedi bod… mae llawer wedi cychwyn magu teulu ac fe fydd angen lleoedd yn yr ysgol.'*<br><br>*'Ni fydd digon o leoedd sbâr yn yr ysgol newydd ar gyfer y teuluoedd newydd sy'n symud i Saltney.'*<br><br>*'Pryder na fyddai'r uno â lle ar gyfer unrhyw blant yn y dyfodol.'* | Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiad eiddo gyda 70 o gartrefi yn Saltney sy'n symud ymlaen drwy system gynllunio Sir y Fflint. Mae unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â chynnydd mewn galw yn seiliedig ar ddatblygiad o'r fath felly yn ddi-sail ar hyn o bryd.<br><br>Tra gall datblygiad tai newydd yn yr ardal gynyddu'r galw, ni fydd pob tŷ yn cyfrannu at niferoedd yr ysgol ar unwaith. Mae teuluoedd yn symud yn raddol a daw plant i'r ysgol ar gyfnodau gwahanol.<br><br>Mae cwmpas yr ysgol newydd arfaethedig ar hyn o bryd wedi ei bennu yn dilyn dadansoddiad demograffig cynhwysfawr, gan gynnwys y tueddiadau o ran tai a chyfraddau geni. Mae capasiti wedi ei gynllunio i fodloni anghenion presennol a'r anghenion a ragwelir yn y dyfodol, gyda hyblygrwydd i addasu os yw'r galw yn newid.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i alluogi ehangu yn y dyfodol os oes angen, gan gynnwys y potensial ar gyfer dosbarthiadau neu gyfleusterau ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau y gall yr ysgol ymateb i unrhyw gynnydd annisgwyl yn niferoedd y disgyblion.<br><br>Pe byddai unrhyw ysgol ffydd leol yn cau, bydd y Cyngor yn rheoli ailddosbarthiad disgyblion yn ofalus i osgoi gorlwytho unrhyw ysgol unigol. Mae uno'r rhwydwaith addysg ffydd yn rhan o ymagwedd strategol i gynnal darpariaeth addysgol ar draws yr ardal ar gyfer darpariaeth Gatholig ac nid yw'n gysylltiedig â chynnig Saltney.<br><br>Caiff capasiti ysgolion ei adolygu'n flynyddol, gan alluogi addasiadau ymatebol yn seiliedig ar alw gwirioneddol. |
| **11. Tegwch a Chyfiawnder (15 o sylwadau)**<br>• Mae yna ganfyddiadau cryf fod Saltney Ferry yn cael ei thargedu yn annheg.<br>• Mae awgrymiadau parhaus fod preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio neu eu bod dan anfantais o ganlyniad i benderfyniadau'r cyngor.<br>• Mae pwyslais ar y baich anghyfartal a roddir ar deuluoedd diamddiffyn a'r rhai nad ydynt yn gyrru.<br><br>*'Rydym wastad wedi bod yr ardal a gaiff ei hanghofio'* | Tra bod yna deimladau cryf fod Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn cael ei dethol, mae'n bwysig egluro fod y cynnig presennol yn effeithio dwy ysgol - Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae hyn yn dangos adolygiad strategol ehangach yn hytrach na gweithred wedi ei thargedu yn erbyn un gymuned. Mae penderfyniadau fel y rhain fel arfer wedi eu seilio ar ffactorau fel niferoedd y disgyblion, cyflwr yr adeiladau a chynaliadwyedd hirdymor ac nid ar sail ddaearyddol.<br><br>Caiff y teimlad o gael eu "hanghofio" ei gydnabod, ond nid yw'n unigryw i Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Mae llawer o gymunedau yn wynebu heriau tebyg ac mae'r Cyngor yn parhau i weithio ar gynlluniau datblygu cynhwysol. Mae cynnwys Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn y cynnig yn |

| | |
|---|---|
| *'Does gan Saltney Ferry ddim siop, dim gwasanaeth bws, dim byd - a nawr mae yna gynnig i gau yr ysgol.'*<br><br>*'Mae teithio yn y car yn ddrud ar gyfer y rhai hynny ar fudd-daliadau a sydd ag incwm isel.'* | dangos fod y mater yn rhan o strategaeth addysgol ehangach, nid esgeuluso un ardal benodol.<br><br>Mae'r pryderon ynglŷn â chludiant a fforddiadwyedd yn ddilys, yn arbennig i'r rhai hynny nad ydynt yn gyrru a theuluoedd incwm isel. Fodd bynnag, mae Cynghorau yn cynnal astudiaethau o effaith ac yn datblygu cynlluniau cefnogi i liniaru'r effeithiau hyn. Gall hyn gynnwys cymorth gyda chludiant, cefnogaeth o ran y pontio i ddisgyblion cymwys ac ymgysylltu gyda theuluoedd i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. |
| **12. Themâu Cadarnhaol (8 sylw)**<br>• Y potensial ar gyfer gwell cyfleusterau modern.<br>• Y cyfle am fuddsoddiad cymunedol a chydgrynhoi.<br>• Manteision amgylcheddol ac effeithlonrwydd.<br>• Dechrau newydd/synnwyr o adnewyddu.<br>*'Mae newid yn beth da - rhywbeth newydd i'r plant fod yn falch ohono a gofalu amdano.'*<br><br>*'Dwi'n teimlo y byddai uno o fudd i'r gymuned drwy greu safle newydd ac adnoddau newydd.'*<br><br>*'Mae'n gwneud synnwyr i gyfuno'r ddwy ysgol a rhoi un adeilad newydd iddynt gyda chyfraddau geni yn gostwng.'* | Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r safbwynt y gallai ysgol newydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol ddarparu gwell cyfleusterau a rhai modern i blant a staff yn ardal Saltney. Rydym hefyd yn cydnabod yr awgrym y gallai uno darpariaeth ar un safle arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau a galluogi buddsoddiad hirdymor mewn addysg o fewn y gymuned. Mae pwysigrwydd dylunio adeilad cynaliadwy sy'n amgylcheddol gyfrifol hefyd wedi ei nodi ac yn cyd-fynd â'r gofyniad yng Nghymru i dargedu bod ag adeiladau sy'n gweithredu yn ddi-garbon net erbyn 2050. Rydym yn deall i rai fod y syniad o ddechrau newydd yn cynnig y posibilrwydd o falchder, hunaniaeth a chyfle wedi ei adnewyddu ar gyfer cymuned Saltney gyfan. |

8.0 Yn y ffurflenni ymateb gofynnwyd i unigolion ddarparu eu safbwyntiau ar effeithiau posibl y cynnig hwn ar y Gymraeg. Mae rhagor o fanylion am yr ymatebwyr wedi ei nodi yn **Atodiad F**. Er gwaetha'r ffaith fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig, roedd tua dwy ran o dair o'r rhai hynny a ymatebodd i'r cwestiynau ar y Gymraeg yn credu y byddai'r cynnig, pe byddai'n cael ei gyflawni, yn arwain at effeithiau cadarnhaol neu niwtral o ran y Gymraeg. Dim ond tua 10% oedd yn credu y byddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar yr ardaloedd a nodwyd. Mae hyn yn gyson gyda'n Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a oedd hefyd yn cydnabod fod unrhyw ysgol newydd yn darparu cyfle i wella sgiliau o ran y Gymraeg yn y lleoliad addysgol a'r gymuned yn ehangach.

8.1 Mae 51.40% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.

8.2 Mae 51.72% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

8.3 Mae 50.00% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.

8.4 Mae 52.05% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

8.5 Mae 46.84% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

8.6 Roedd ymatebwyr yn gallu darparu sylwadau ychwanegol ar sut y gallai'r cynnig hwn gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Cafodd 138 o sylwadau unigol eu derbyn. Mae dadansoddiad o amlder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau isod.

**THEMÂU YN YMWNEUD Â'R GYMRAEG**

| Thema | Ymateb CSyFf |
|---|---|
| **1. Perthnasedd y Cwestiwn ar y Gymraeg i'r Ymgynghoriad (47 o sylwadau)**<br>• Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod y cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg yn amherthnasol neu'n amhriodol yng nghyd-destun cau neu uno ysgolion.<br><br>*"Does gan hyn ddim i'w wneud â chau ysgolion."*<br><br>*"Cwestiwn amherthnasol - gwirion."*<br><br>*"Pam fod hyn hyd yn oed yn berthnasol?"* | Rydym yn deall fod rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad penodol hwn. Fodd bynnag, fel Cyngor yng Nghymru, mae gennym ni ddyletswydd statudol i ystyried effaith unrhyw adrefnu ysgolion ar y ddarpariaeth Gymraeg ac i adrodd ar sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effaith polisïau ac ymgynghoriadau ar y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a'r effaith ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae cynnwys y cwestiynau hyn yn sicrhau ein bod yn bodloni'r cyfrifoldebau hyn ac yn ystyried pob agwedd yn ymwneud â'r Gymraeg, mewn dull cyson a thryloyw. Mae hyn hefyd yn helpu i lywio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caiff rhagor o wybodaeth yn ymwneud â hyn ei chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ar ein gwefan. |
| **2. Cefnogaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg (mewn egwyddor) (26 o sylwadau)**<br>• Mae rhai yn cefnogi dysgu Cymraeg, yn arbennig am resymau diwylliannol, ond yn aml gyda'r rhybudd na ddylai ddod ar draul cau ysgolion neu ddisodli blaenoriaethau eraill.<br><br>*"Mae dysgu Cymraeg yn wych, mae fy mhlentyn wrth ei fodd â hyn."*<br><br>*"Mae'n rhoi cyfle i bobl ddysgu a siarad iaith arall."*<br><br>*"Anogwch y defnydd o'r ddwy iaith ym mhob agwedd."* | Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol sy'n cydnabod gwerth diwylliannol ac addysgol dysgu Cymraeg. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol ac roedd yn dda fod cynifer o deuluoedd yn gweld pwysigrwydd hyn. Rydym hefyd yn deall fod y gefnogaeth hon yn aml yn cael ei chydbwyso gyda phryderon ynglŷn â'r blaenoriaethau addysgol ehangach, fel darpariaeth ysgolion a lles disgyblion. Rydym eisiau sicrhau teuluoedd fod ein ffocws, yn ogystal ag ar addysg Gymraeg, hefyd yn parhau ar ddarparu addysg gynhwysol o ansawdd uchel i bob dysgwr. |

| | |
|---|---|
| **3. Pryderon am Ymarferoldeb y Gymraeg mewn Tref ar y Ffin (39 o sylwadau)**<br>• Mae nifer yn gweld Saltney fel tref Saesneg ei hiaith yn bennaf, gan wneud i'r dasg o hyrwyddo'r Gymraeg deimlo'n anymarferol, yn symbolaidd neu'n rhywbeth a gaiff ei orfodi.<br><br>*"Yn ôl adroddiadau Saltney yw'r dref fwyaf Seisnig yng Nghymru."*<br><br>*"Mae'r rhan fwyaf o bobl yn Saltney wedi eu geni yng Nghaer ac yn ystyried eu hunain fel Saeson."*<br><br>*"Allwch chi ddim gorfodi rhywun i siarad Cymraeg."* | Rydym yn gwerthfawrogi'r safbwyntiau a rannwyd am gyd-destun diwylliannol unigryw Saltney fel cymuned ar y ffin. Rydym yn cydnabod fod hyrwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf yn cyflwyno heriau penodol a bod angen i unrhyw ymdrechion fod yn gytbwys.<br><br>Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb. Mae ein hymagwedd yn anelu i gynnig cyfleoedd cynhwysol ac ymgysylltiol ar gyfer dysgu Cymraeg. Rydym yn ymroddedig i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gan sicrhau fod yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd yn cael y cyfle i wella eu sgiliau Cymraeg hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw o bosibl yn cael ei siarad yn eang. |
| **4. Effaith Cau/Uno Ysgolion ar y Defnydd o'r Gymraeg (19 o sylwadau)**<br>• Mae rhai yn credu y byddai cau Saltney Ferry yn golygu y byddai unigolion yn llai cyfforddus a hyderus yn siarad Cymraeg, tra bo eraill yn teimlo na fyddai uno yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl.<br><br>*"Byddai cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg."*<br><br>*"Ni fydd cael ysgol newydd yn cael dim effaith ar y Gymraeg."*<br><br>*"Bydd symud yn nes at Loegr yn gwneud i rywun beidio â siarad Cymraeg."* | Rydym yn deall y pryderon ynglŷn â sut y gall newidiadau i ysgolion effeithio'r defnydd o'r Gymraeg, yn arbennig yr ofn y gallai cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry leihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu hyder yn y Gymraeg. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod fod rhai yn teimlo y gallai'r effaith fod yn fach iawn. Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda chymuned yr ysgol i sicrhau fod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r defnydd o'r iaith yn parhau i gael ei gefnogi a'i annog yn yr amgylchedd newydd, gan helpu'r holl ddisgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda threftadaeth ddwyieithog Cymru. |
| **5. Y Gymraeg fel Sgil Werthfawr yn erbyn Blaenoriaeth Addysgol (22 o sylwadau)**<br>• Tra bo rhai yn gweld y Gymraeg fel sgil ddefnyddiol neu bwysig yn ddiwylliannol, mae eraill yn teimlo na ddylai gael blaenoriaeth dros anghenion academaidd craidd neu ieithoedd modern byd-eang.<br><br>*"Mae'n beth da i ddysgu Cymraeg - ond mae ieithoedd eraill fel Sbaeneg yn fwy defnyddiol."* | Rydym yn cydnabod fod y Gymraeg yn werthfawr o ran treftadaeth ddiwylliannol ac fel sgil ieithyddol a all gynyddu hyder ac annibyniaeth er mwyn dysgu ieithoedd eraill. Ar yr un pryd rydym yn gwerthfawrogi fod rhai teuluoedd yn teimlo na ddylai blaenoriaethau academaidd eraill neu ieithoedd byd-eang gael eu taflu i'r cysgod. Ein nod yw i ddarparu cwricwlwm cytbwys sy'n cefnogi dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â phynciau craidd a chyfleoedd ieithyddol eraill, gan sicrhau fod addysg pob plentyn yn gyflawn ac yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion ar gyfer y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| *"Mae oriau dysgu Cymraeg yn cymryd oddi wrth bynciau craidd."*<br><br>*"Mae dysgu Cymraeg yn helpu i gynyddu hyder ac annibyniaeth."* | |
| **6. Awgrymiadau ar gyfer Gwella (11 o sylwadau)**<br>• Roedd nifer o sylwadau yn cynnwys syniadau fel cynnig dosbarthiadau Cymraeg i rieni, adnoddau dwyieithog, gwell hyfforddiant i staff ac ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>*"Cynnig dosbarthiadau Cymraeg i ddechreuwyr i rieni."*<br><br>*"Hyfforddi staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg o ddydd i ddydd."*<br><br>*"Gadewch i'r gymuned helpu i hyrwyddo'r Gymraeg."* | Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau ystyriol a gynigiwyd i wella dysgu Cymraeg ac ymgysylltu, gan gynnwys darparu dosbarthiadau i rieni, gwella hyfforddiant i staff a chynnwys y gymuned yn ehangach. Mae'r syniadau hyn yn cyd-fynd yn dda gyda'n hymrwymiad i greu sir a gwlad sy'n gynyddol ddwyieithog a byddant yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r ymdrechion parhaus i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion a'n cymunedau. Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg manwl a gellir ei weld yma https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Welsh-Education-Strategic-Plan.aspx |

## 9.0 Y camau nesaf

Bydd aelodau o Gabinet Cyngor Sir y Fflint yn derbyn copi o'r adroddiad hwn cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â ph'un ai i fynd ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi Hysbysiad Statudol. Mae'r broses hon yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu 28 diwrnod ffurfiol, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'n rhaid i unrhyw wrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig. Yn dilyn y cyfnod hwn bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad arall yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd a bydd yn penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen gyda gweithredu'r cynnig.

Ni fydd sylwadau a wneir yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau. Os bydd unrhyw ymgyngoreion yn dymuno gwrthwynebu yn ffurfiol rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu dynodedig. Bydd manylion ynglŷn â sut i gyflwyno gwrthwynebiad yn cael ei amlinellu'n glir yn yr Hysbysiad Statudol os gwneir penderfyniad i symud ymlaen.

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

## ATODIAD A

Rhestr o'r holl fudd-ddeiliaid a dderbyniodd ddogfennau'r ymgynghoriad.

| **Gofyniad o dan y Cod Trefniadaeth 011/2018** | **Bydd yn cael ei ddosbarthu i'r:** |
|---|---|
| Cymuned yr ysgol | Pennaeth, athrawon, staff a chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.<br><br>Disgyblion yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.<br><br>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a lle bo'n bosibl darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.<br><br>Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. |
| yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion; | Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig |
| unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Angen Addysgol Arbennig (AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddo; | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer |
| yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi ei lleoli; | Esgobaeth Wrecsam<br>Esgobaeth Llanelwy |
| ac unrhyw gorff crefyddol arall sy'n briodol ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig | |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys y rhai hynny a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion a ddadleolir. | Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Saltney |
| Corff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn y byddant yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion; | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Brychdyn<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Sirol Lache |
| Gweinidogion Cymru. | |
| Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud. | Jack Sargeant AoS<br>Mark Tami AS |
| Estyn. | Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Cynrychiolwyr NASUWT, NEU, UCAC, ASCL UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol. | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud. | Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud. | Cyngor Tref Saltney |

| | |
|---|---|
| Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol). | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol a allai gael eu heffeithio; | Saltney Small Steps<br>Gofal estynedig Woody Wraparound<br>Clwb Hapus |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maent yn bresennol. | Mudiad Meithrin<br>Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd<br>PACEY<br>Menter Iaith |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol sydd â buddiant. | SNAP Cymru |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol. | Amherthnasol |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | |
| Arall | Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint<br>Y gymuned ehangach yn Saltney |

**ATODIAD B**

Yn dangos sut mae ymatebwyr o wahanol ysgolion yn cefnogi'r cynnig.


| | Which school/s do you associate yourself with? | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint... | | Saltney Ferry C.P | Saltney Wood Memorial C.P. | Saint Anthony's Catholic Primary School | Broughton C.P | Other (please specify): | Row Totals |
| | Yes | 9<br>4.2% | 24<br>19.7% | 3<br>17.6% | 7<br>50.0% | 5<br>62.5% | 48<br>12.9% |
| | No | 203<br>95.8% | 98<br>80.3% | 14<br>82.4% | 7<br>50.0% | 3<br>37.5% | 325<br>87.1% |
| | Column Total | 212<br>56.8% | 122<br>32.7% | 17<br>4.6% | 14<br>3.8% | 8<br>2.1% | 373<br>100% |

**Sylwadau**

- Mae mwyafrif llethol o ymatebwyr o Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony yn anghytuno gyda'r cynnig.
- Mae ymatebwyr sy'n cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Brychdyn wedi eu rhannu 50/50 o ran cytuno â'r cynnig.
- Mae mwyafrif yr ymatebwyr sy'n nodi eu hunain fel 'arall' yn cytuno gyda'r cynnig. Nid yw ymatebwyr wedi nodi eu hunain yn glir yn y categori hwn.

## ATODIAD C

Yn dangos y diddordeb/y berthynas sydd gan yr ymatebwyr gyda'r ysgol y maent yn cysylltu eu hunain â hi.




### Sylwadau

- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (48.77%) yn rhieni/gofalwyr i ddisgybl yn yr ysgol.
- Nododd chwarter (25.46%) o ymatebwyr eu hunain fel aelodau o'r gymuned.
- Roedd y rhai hynny a nododd eu hunain fel 'arall' yn neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu yn bennaf.

## ATODIAD D

Archwiliad o’r ymatebion gan grwpiau amrywiol o ymatebwyr yn ymwneud â’r cynnig.

| | | What is your interest/relationship with the school/s you identify with? | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...** | | I am a parent/carer of a pupil at the school | I am a pupil at the school | I am a prospective parent/carer of a pupil at the school | I am a teacher/other member of staff at the school | I am a governor at the school | I am a member of the community | Other (please specify): | Row Totals |
| | Yes | 18<br>11.3% | 0<br>0.0% | 1<br>7.7% | 9<br>50.0% | 1<br>14.3% | 6<br>7.2% | 3<br>7.0% | 38<br>11.7% |
| | No | 141<br>88.7% | 3<br>100.0% | 12<br>92.3% | 9<br>50.0% | 6<br>85.7% | 77<br>92.8% | 40<br>93.0% | 288<br>88.3% |
| | Column Total | 159<br>48.8% | 3<br>0.9% | 13<br>4.0% | 18<br>5.5% | 7<br>2.1% | 83<br>25.5% | 43<br>13.2% | 326<br>100% |

### Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (88.7%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (92.8%) o’r gymuned yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (93%) o’r categori ‘arall’ yn cytuno gyda’r cynnig. Mae’r rhain yn bennaf yn cynnwys neiniau a theidiau ac aelodau eraill o’r teulu.
- Mae ymatebwyr sy’n staff wedi rhannu 50/50 o ran cytuno â’r cynnig.

Dadansoddiad o’r grwpiau o ymatebwyr sy’n cysylltu eu hunain ag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood **<u>yn unig</u>**.

| | | What is your interest/relationship with the school/s you identify with? | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...** | | I am a parent/carer of a pupil at the school | I am a pupil at the school | I am a prospective parent/carer of a pupil at the school | I am a teacher/other member of staff at the school | I am a governor at the school | I am a member of the community | Other (please specify): | Row Totals |
| | Yes | 11<br>17.5% | 0<br>0.0% | 1<br>20.0% | 7<br>58.3% | 1<br>20.0% | 2<br>8.0% | 2<br>16.7% | 24<br>19.7% |
| | No | 52<br>82.5% | 0<br>0.0% | 4<br>80.0% | 5<br>41.7% | 4<br>80.0% | 23<br>92.0% | 10<br>83.3% | 98<br>80.3% |
| | Column Total | 63<br>51.6% | 0<br>0.0% | 5<br>4.1% | 12<br>9.8% | 5<br>4.1% | 25<br>20.5% | 12<br>9.8% | 122<br>100% |

### Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (82.5%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (92%) o’r gymuned yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (83.3%) o’r categori ‘arall’ yn cytuno gyda’r cynnig. Mae’r rhain yn bennaf yn cynnwys neiniau a theidiau ac aelodau eraill o’r teulu.
- Mae’r mwyafrif o ymatebwyr sy’n staff (58.3%) yn cytuno â’r cynnig.

Dadansoddiad o’r grwpiau o ymatebwyr sy’n cysylltu eu hunain ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry **yn unig**.

| | | What is your interest/relationship with the school/s you identify with? | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint... | | I am a parent/carer of a pupil at the school | I am a pupil at the school | I am a prospective parent/carer of a pupil at the school | I am a teacher/other member of staff at the school | I am a governor at the school | I am a member of the community | Other (please specify): | Row Totals |
| | Yes | 6<br>6.1% | 0<br>0.0% | 0<br>0.0% | 0<br>0.0% | 0<br>0.0% | 1<br>1.6% | 2<br>5.9% | 9<br>4.2% |
| | No | 92<br>93.9% | 3<br>100.0% | 7<br>100.0% | 4<br>100.0% | 3<br>100.0% | 62<br>98.4% | 32<br>94.1% | 203<br>95.8% |
| | Column Total | 98<br>46.2% | 3<br>1.4% | 7<br>3.3% | 4<br>1.9% | 3<br>1.4% | 63<br>29.7% | 34<br>16.0% | 212<br>100% |


### Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (93.9%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (98.4%) o’r gymuned yn cytuno gyda’r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (94.1%) o’r categori ‘arall’ yn cytuno gyda’r cynnig. Mae’r rhain yn bennaf yn cynnwys neiniau a theidiau ac aelodau eraill o’r teulu.
- Mae 100% o ddisgyblion, darpar rieni, staff a llywodraethwyr yn anghytuno gyda’r cynnig.

## ATODIAD E

Dadansoddiad o ymatebion i'r cwestiynau yn ymwneud â'r Effaith ar y Gymraeg.


**Increasing the number of people speaking or learning Cymraeg.**




### Sylwadau

- Nododd 51.4% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran cynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.


**Using Welsh services.**




### Sylwadau

- Nododd 51.72% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran y defnydd o wasanaethau Cymraeg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.


Opportunities to use Welsh socially.




**Sylwadau**


- Nododd 50% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Nododd 25.63% o ymatebwyr y byddai yna effaith gadarnhaol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn rhybudd nad oedd rhai ymatebwyr a nododd effaith gadarnhaol y cynnig o'i blaid yn gyffredinol.

Welsh speaking communities.




**Sylwadau**

- Nododd 52.05% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna ar gymunedau Cymraeg eu hiaith pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.




**Sylwadau**

- Nododd 46.84% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Nododd 27.54% o ymatebwyr y byddai yna effaith gadarnhaol o ran trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn rhybudd nad oedd rhai ymatebwyr a nododd effaith gadarnhaol y cynnig o'i blaid yn gyffredinol.

## ATODIAD F

Archwiliad o'r ymatebion i ddigwyddiadau Ymgynghori â Chyngor yr Ysgol a gynhaliwyd yn unigol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

### Ymgynghoriad â Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry

**Crynodeb**

**1)**

**a) Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Y fferm | **5** |
| Mae'r athrawon yn garedig iawn | **1** |
| Cymuned braf | **2** |
| Mae'n agos i'n cartrefi | **1** |
| Mae'n teimlo'n ddiogel | **1** |

**b) Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Mwy o anifeiliaid ar gyfer ein fferm | **1** |
| Cael cinio/pryd bwyd neis yn yr ysgol | **2** |
| Gwell cae pêl-droed | **1** |
| Gwell teganau | **1** |

**2)Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Trist | **5** |
| Dig | **1** |
| Blin | **2** |
| Syfrdan | **2** |
| Gofidus | **1** |
| Hapus | **1** |
| Yn bryderus | **1** |

**3)**

**a) Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Gwneud ffrindiau newydd | **5** |
| Gwell buarth chwarae | **1** |
| Mwy o offer | **1** |
| Caeau pêl-droed mwy | **1** |
| Fe fydd yn fwy ac yn well | **2** |

**b) Beth am yr elfennau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Mwy o bellter i deithio | **3** |
| Mwy o dagfeydd | **1** |
| Gall plant gydag ADY gael pethau'n anodd | **2** |
| Drwg i'r anifeiliaid a'u lles | **2** |
| Drwg i les y plant | **1** |
| Colli atgofion | **1** |
| Gormod o blant mewn dosbarth | **2** |
| Gall athrawon golli eu swyddi | **2** |

**4) Oes yna unrhyw beth arall y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Uwchraddio'r ysgol bresennol | **1** |
| Adeiladu ail lawr | **1** |
| Peidiwch â dymchwel yr ysgolion | **3** |
| Cau Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac ehangu ein hysgol | **2** |

**Sylwadau**

- Disgrifiodd y mwyafrif o blant deimladau o dristwch pe byddai Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn cau.
- Awgrymodd 5 sylw mai elfen gadarnhaol o'r cynnig fyddai y gallai plant wneud ffrindiau newydd.
- Nododd 3 sylw mai anfantais y cynnig ar gyfer plant o Ysgol Gynradd Saltney Ferry fyddai'r pellter y byddai angen iddynt deithio i'r ysgol newydd. Hefyd awgrymodd adborth fod plant yn bryderus am y posibilrwydd o ddosbarthiadau gorlawn, y posibilrwydd o athrawon yn colli eu gwaith, yr heriau y gallai plant ag ADY ei wynebu yn ystod y pontio a'r effaith negyddol ar yr anifeiliaid ar y fferm a'u lles.
- Roedd 3 sylw yn cynnig mai dull mwy ffafriol fyddai un ai peidio â dymchwel yr ysgolion yn llwyr neu i gau Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac ehangu Ysgol Gynradd Saltney Ferry.

**Ymgynghoriad â Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Crynodeb**

**1)**

**a) Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Mae gennym ni bethau sy'n llawer o hwyl | **1** |
| Croesawu ffrindiau | **1** |
| Mae'r athrawon i gyd yn garedig | **3** |
| Mae'n unigryw | **1** |
| Ysgol goedwig a llyfrgell awyr agored | **1** |
| Rydym yn hoffi ein gwisg ysgol | **2** |
| Mae pawb yn cael ei weld | **2** |

**b) Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Fe fyddem ni'n hoffi rhesel feiciau | **3** |

**2) Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai eich ysgol i gau?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Trist | **3** |
| Ddim yn poeni | **1** |
| Gofidus | **3** |
| Dryslyd | **1** |
| Blin | **4** |

**3)**

**a) Beth ydych chi'n credu fyddai'r elfennau da am gael ysgol newydd sbon?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Gwneud ffrindiau newydd | **5** |
| Rydym ni'n rhyw fath o adnabod plant Ysgol Gynradd Saltney Ferry | **1** |
| Byddai'r adeilad yn fwy diogel a dibynadwy | **1** |

**b) Beth am yr elfennau drwg?**

| Ymatebion | Nifer y disgyblion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mae'n bosibl na fyddem yn gweld ein hoff athrawon | **2** |
| Byddai'n wahanol i'r hyn rydym wedi arfer gydag ef | **1** |
| Mae'n bosibl y byddem yn colli ein pennaeth | **2** |
| Byddai'n costio mwy o arian i adeiladu ysgol newydd | **2** |
| Fe fyddem yn ei adeiladu ar fyd natur | **2** |
| Byddai'n wastraff arian | **1** |
| Fe fyddem yn ymladd a gweiddi ar ein gilydd | **1** |

**4) Oes yna unrhyw beth y byddech chi'n hoffi ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

| Ymatebion | Nifer y Sylwadau |
|---|---|
| Adeiladu estyniad | **3** |
| Cadw Woody | **3** |
| Dylai Saltney Ferry fynd ar ein cae ond cadw Woody | **2** |
| Hysbysebu'r ddwy ysgol | **1** |
| Dymchwel yr Hwb a'i ychwanegu at y cae. Gall y rhai hŷn aros yn Woody a'r rhai iau yn yr Hwb | **1** |
| Atgyweirio'r adeilad presennol | **1** |
| Gwell technoleg | **1** |
| Mwy o staff | **1** |
| Ehangu'r ddwy ysgol | **1** |

**Sylwadau**

- Disgrifiodd y rhan fwyaf o blant deimladau o ddicter, tristwch a gofid pe byddai Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn cau.
- Awgrymodd 5 sylw mai elfen gadarnhaol o'r cynnig fyddai y gallai plant wneud ffrindiau newydd.
- Dangosodd adborth fod anfanteision posibl y cynnig i blant o Ysgol Gynradd Saltney Wood yn cynnwys y posibilrwydd o golli eu pennaeth a'u hoff athrawon, pryderon y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu mewn ardal naturiol a'r gred y byddai adeiladu ysgol newydd yn ddrutach nac adnewyddu'r un bresennol.
- Awgrymodd 3 sylw mai syniad gwell fyddai i adeiladu estyniad ar Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a chadw Ysgol Gynradd Saltney Wood fel y mae.

**Fforwm Sir y Fflint Ifanc 23 Mehefin 2025**

**Crynodeb o'r sesiwn adborth**

Mae Fforwm Sir y Fflint Ifanc yn cynnwys cynrychiolwyr o holl Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint.

Rhoddwyd cyflwyniad ar gynnig ysgolion Ardal Saltney a'r Ysgol Gatholig a gofynnwyd i grwpiau drafod a nodi manteision ac anfanteision y cynigion, ac amlygu unrhyw beth yr hoffent ei weld yn digwydd yn hytrach na hynny. Gofynnwyd iddynt hefyd beth roeddent yn ei deimlo am eu hysgolion yn gyffredinol, a caiff hynny ei gynnwys yn adran 2 y grynodeb hon.

**Adran 1 – Manteision ac Anfanteision y cynigion i Foderneiddio Ysgolion**

| Manteision | Nifer | Anfanteision | Nifer |
|---|---|---|---|
| Manteision ariannol:<br>• Costio llai<br>• Mwy effeithlon o ran arian<br>• Bod yn rhagweithiol<br>• Byddai uno ysgolion yn caniatáu gwell defnydd o adnoddau a byddai'n fwy effeithlon. Os gall Bryn Coch ffynnu gydag 1 Pennaeth ac 800 o blant a oes angen 2 Bennaeth ar gyfer 200 o blant ar Saltney?<br>• Staffio<br>• Cyllid uwch o bosibl ar gyfer ysgol newydd | **6** | Ariannol:<br>• Cyllideb drom ar gyfer ysgolion newydd/cyllideb is ar gyfer ysgolion sy'n bodoli | **1** |
| Adnoddau:<br>• Byddai uno ysgolion yn caniatáu gwell defnydd o adnoddau a byddai'n fwy effeithlon | **2** | Staffio:<br>• Athrawon yn colli eu swyddi<br>• Cymhareb y myfyrwyr i'r athrawon<br>• Gall ymddangos yn anodd i ddod o hyd i swydd newydd<br>• Colli swyddi<br>• Athrawon newydd nad ydynt yn eich adnabod<br>• Llawer o bwysau ar y Pennaeth | **6** |
| Cyfleusterau:<br>• Cyfleusterau glanach/newydd | **1** | ADY:<br>• Heb gyfleusterau | **1** |
| Cwricwlwm | **1** | Lles preswylwyr | **1** |
| Adeilad:<br>• Strwythur modern/Eco-gyfeillgar<br>• Adeiladau newydd (wedi eu moderneiddio) | **2** | Lles myfyrwyr<br>Llai o weld ffrindiau | **2** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Lles myfyrwyr<br>• Mae’n bosibl eu bod yn dangos mwy o ddiddordeb â’r syniad o ysgol newydd.<br>• Annog rhyngweithio/cymdeithasu<br>• Cyfle i gyfarfod pobl newydd | **4** | | |
| Cymuned:<br>• Dod â’r gymuned ynghyd | 1 | Cludiant:<br>• Cyllid<br>• Pellter/ffyrdd prysur<br>• Yr angen am fwy o gludiant<br>• Fe all y safle newydd fod yn rhy bell. Traffig yn rhyddhau mwy o allyriadau | **5** |
| Staffio:<br>• Gall athrawon symud i ysgolion sydd eu hangen | 2 | | |

**Sut fyddech chi’n teimlo pe byddai ein hysgol i gau?**

| |
|---|
| Bydd cau ysgolion bob amser yn anodd gan ei fod yn achosi i athrawon golli eu swyddi. |
| Pe byddai ysgolion yn cau, byddai’r nifer o fyfyrwyr yn cynyddu sy’n golygu y byddai cynhyrchiant y gwersi yn lleihau, pe byddai myfyrwyr yn symud ysgolion. |
| Safle/pennaeth ar y cyd - Mae Ysgol Maes Hyfryd yn gwneud hyn yn barod ar raddfa fach gyda’r canolbwynt chweched dosbarth yn Shotton a’r brif ysgol yn Y Fflint (mae’n gweithio’n dda). |
| Gofid gan y byddai ein hysgol yn cau ac fe allem gael ein gwahanu oddi wrth ein ffrindiau. |

**Beth yr hoffem ei weld yn digwydd yn hytrach na hynny?**

| **Ymatebion** | |
|---|---|
| Saltney: Byddai uno 2 ysgol (1 Pennaeth ac 1 Corff Llywodraethu) ond ei gadw fel dau safle yn arbed arian cyhoeddus - dim adeilad newydd. Y rheswm yw am fod rhieni wedi dewis yr ysgol honno ac mae’n gweithredu’n iawn. | **1** |

**Sylwadau**

- Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn teimlo y byddai uno’r ddwy ysgol yn fwy effeithlon yn ariannol a byddai’n ddefnydd gwell o adnoddau.

- Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn cydnabod y gallai rhai aelodau o staff golli eu swyddi a byddai mwy o bwysau ar un pennaeth a byddai'r gymhareb athro/athrawes i fyfyrwyr yn uwch.
- Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn cydnabod yr effaith negyddol ar y pellter y byddai angen i rai myfyrwyr deithio er mwyn mynychu'r ysgol newydd.
- Roedd 4 sylw yn awgrymu y byddai ysgol newydd yn galluogi myfyrwyr i wneud ffrindiau newydd ac mae'n bosibl y byddai ganddynt fwy o ddiddordeb mewn ysgol newydd.
- Roedd myfyrwyr yn cydnabod yr effaith o gau ysgolion ac yn cydymdeimlo gan fod hyn yn anodd.
- Roedd myfyrwyr hefyd yn cydnabod modelau llwyddiannus mewn lleoedd eraill yn Sir y Fflint lle mae un Pennaeth yn goruchwylio mwy nag un safle.
- Roedd 1 sylw yn awgrymu y dylai Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood uno ond parhau ar eu safleoedd presennol i arbed arian cyhoeddus a chynnal ysgolion yn y cymunedau hynny.

**ATODIAD G**

Yr ymateb i'r cynnig a baratowyd ar gyfer Estyn ac a dderbyniwyd gan Estyn.

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru.**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Estyn weithredu'n unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff ymgynghorol, bydd Estyn yn darparu eu barn ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgol yn unig. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgiadol y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.
Y cynnig yw i adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood drwy gau'r ddwy ysgol ac agor ysgol newydd a gynhelir a fyddai'n gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried fod y cynnig yn debygol o gynnal, o leiaf, safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynnig hwn wedi ei gyflwyno gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi rhesymeg glir dros ei gynnig ac yn nodi fod y cynnig hwn i foderneiddio ysgolion yn angenrheidiol i sicrhau:

- darpariaeth addysg o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy
- gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion
- bod y nifer iawn o leoedd o'r math iawn ar gael mewn ysgolion a hynny yn y mannau iawn
- mae'n mynd i'r afael ag adeiladau ysgol ac isadeiledd anghynaladwy
- cydnabod y bydd peidio â gweithredu'n arwain at gymarebau uwch rhwng athrawon a disgyblion wrth i gyllid leihau
- manteisio i'r eithaf ar gyllid allanol drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi disgrifiad manwl o'r cynnig. Mae'n cynnig cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor un ysgol gynradd wedi uno, ar y ddau safle presennol i gychwyn. Hwn fydd y trefniant tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu, gan arwain yn y pendraw at agor ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd gyda lle i 315 o ddisgyblion ar y tir lle mae Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn mae'r awdurdod, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn bwriadu buddsoddi £12.5 miliwn mewn ysgol newydd, yn amodol ar sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol.

Mae’r awdurdod yn disgrifio nifer o faterion i amlinellu pam y byddai adeilad newydd i’r ysgol o fudd. Mae’n nodi fod yr ysgolion presennol yn arddangos ychydig o ddirywiad. Hefyd mae adeiladau presennol yr ysgolion yn cael eu cyflwyno yn y cynnig fel rhai lle mae yna heriau o ran bodloni anghenion addysgol y disgyblion, er enghraifft cefnogi’r cwricwlwm mewn rhai meysydd ac i gefnogi dulliau addysgu effeithiol.

Mae’r ffaith bod yr ysgolion wedi eu lleoli mewn ardal breswyl yn golygu bod danfon a chasglu disgyblion o’r ysgol yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni barcio a throi eu cerbydau. Mae’r cynnig hefyd yn rhoi data clir yn dangos fod niferoedd disgyblion yn ystod y 4 blynedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn dipyn is na’r capasiti, gyda rhwng 64 a 120 o leoedd gwag i gyd.

Mae’r awdurdod yn cynnig fod y ddwy ysgol yn cau ym Medi 2026 ac yn uno i greu un ysgol o dan un arweinydd a chorff llywodraethu, tra’n parhau i ddefnyddio’r ddau safle presennol am y tro. Wedyn bwriedir dechrau adeiladu’r ysgol gynradd newydd ym mis Ionawr 2027 a rhagwelir y byddai’n agor ym mis Medi 2028.

Mae’r awdurdod lleol yn darparu amserlen arfaethedig ar gyfer y gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu’r cynnig. Mae hyn yn cynnwys cynnal y broses ymgynghori i gynnwys ystod eang o ymgyngoreion, gan alluogi rhieni ac aelodau o’r gymuned i ymateb drwy arolygon ar-lein i fynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Ar y cyfan mae’r cynigydd yn nodi’n glir ac yn deg y buddion a ddisgwylir o ganlyniad i’r newid arfaethedig gan gynnwys uno’r ddwy ysgol yn y tymor byr ac adeiladu’r ysgol newydd erbyn Medi 2028. Mae’n nodi y bydd yr uno ac wedyn ail-leoli’r ysgol i gyfleuster newydd, wedi ei leoli ar safle presennol Ysgol Goffa Saltney Wood, yn darparu digon o leoedd i fodloni anghenion yr ardal leol ac y bydd yn lleihau costau gweithredu yn sylweddol gan y byddai yna un ysgol yn hytrach na dwy. Mae’r awdurdod yn cadarnhau y bydd sefydlu ysgol newydd fodern gyda gwell adnoddau yn darparu gwell cyfleoedd i ddysgu. Roedd y cynnig yn nodi fod cyfleuster newydd ar gyfer yr ysgol yn rhoi’r cyfle i’r ddwy ysgol ddod ynghyd fel un a chyfuno holl brofiad ac arferion gorau’r ddwy ysgol i wella’r canlyniadau dysgu i blant. Mae’r cynnig yn nodi mai hwn yw’r dewis a ffefrir gan y bydd yn lleihau’r nifer helaeth o leoedd gwag yn ysgolion cynradd yr ardal ac yn lleihau costau gweithredu tra’n darparu amgylchedd dysgu modern newydd sy’n addas i’r diben a fydd yn gwella’r cyfleoedd dysgu i’r holl blant.

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried rhai o’r anfanteision posibl yn ymwneud â’r cynnig gan gynnwys cau’r ddwy ysgol ar eu ffurf bresennol a cholli ysgol yn ardal gymunedol Saltney Ferry. Fe fyddai yna effaith ar bellteroedd teithio ar gyfer y disgyblion hynny sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol gynradd gymunedol Saltney Ferry a fyddai’n gorfod teithio i ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Hefyd fe fyddai yna bosibilrwydd o ddiswyddiadau yn gysylltiedig gyda lleihau yr ysgolion i un ysgol yn hytrach na dwy.

Mae’r cynnig yn cynnwys sawl adroddiad effaith, gan gynnwys un ar gludiant o’r cartref i’r ysgol. Mae’r adroddiad hwn yn nodi y darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a’r ysgol i bob disgybl ysgol gynradd sy’n byw ddwy filltir neu fwy o’u hysgol agosaf, neu’r ysgol agosaf sydd ar gael. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn ac ni fydd y llwybrau sydd ar gael i gerdded rhwng y cartref a’r ysgol yn newid, oni bai eu bod eisoes wedi’u gwella. Mae’r dadansoddiad cyfredol gan yr awdurdod lleol yn dangos na fyddai unrhyw ddisgyblion sy’n mynychu un ai Ysgol Gynradd Saltney Ferry neu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd yn gymwys i gael cludiant rhwng y cartref a’r ysgol pe byddai’r cynnig hwn yn cael ei weithredu’n llwyddiannus.

Mae adroddiad effaith arall sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn nodi y byddai'r effaith ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn isel ac na fyddai yna unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry nac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai'r cyfleusterau modern a fyddai ar gael yn yr ysgol newydd yn gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Fodd bynnag nid yw'n ystyried y straen posibl i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol a fydd nawr yn gorfod teithio ymhellach i'w hysgol newydd o Fedi 2028.

Mae'r cynnig yn darparu tri dewis amgen i'r cynnig a ffefrir, gan gynnwys cadw'r status quo, gwneud y gwaith adnewyddu a'r newidiadau lleiaf posibl i'r ddwy ysgol ac uno'r ddwy ysgol ar eu safleoedd presennol tra'n buddsoddi yn eu cyfleusterau presennol. Mae'n rhoi rhesymau manwl a dilys ynglŷn â pham fod y dewisiadau amgen hyn wedi eu diystyru.

Mae'r cynnig yn rhoi crynodeb o'r goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer pob un o'r pedwar dewis ar gyfer symud ymlaen. Mae'r cynnig yn nodi mai un sbardun o blaid uno yw bod cyllid yn gyfartal ar gyfer y disgyblion ac y byddai uno'r ddwy ysgol yn rhesymoli'r gost fesul disgybl yn yr ardal. Bydd Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn cael eu hariannu ar sail yr un fformiwla gyllido ag ysgolion eraill os ydynt yn uno.
Bydd angen buddsoddiad cyfalaf o tua £12.5 miliwn ar yr ysgol newydd, a fydd yn agor ym Medi 2028. Caiff hwn ei ddarparu drwy fenthyca cyfalaf Cyngor Sir y Fflint ac o gyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

O ran staffio, mae'r cynnig yn nodi na fyddai uno'r ysgolion yn y tymor byr yn cael fawr ddim effaith ar y trefniadau staffio i ddechrau, gan y byddai'r ysgol gyfunol yn parhau ar y safleoedd presennol cyn symud i'r safle newydd. Bydd corff llywodraethu'r ysgol newydd, gan weithio gydag adran Adnoddau Dynol yr awdurdod lleol, yn penodi Pennaeth i arwain yr ysgol yn ystod y cyfnod cychwynnol ar y safleoedd presennol. Yn dilyn hynny bydd y corff llywodraethu, y Pennaeth ac adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol yn sefydlu strwythur staffio ar gyfer yr adleoli i'r ysgol newydd. Mae'r cynnig hwn yn mynnu y bydd yn darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff drwy rannu arferion gorau a chynlluniau datblygu proffesiynol, ac o bosib cynnig gwell cyfleoedd i bobl symud ymlaen yn eu gyrfaoedd gan y bydd mwy o swyddi ar gyfer rheolwyr canol ac uwch arweinwyr mewn ysgol fwy.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n nodi na fydd y cynnig hwn yn cefnogi amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod. Er bod y Cyngor yn cefnogi'r ymdrech i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r cynnig yn dadlau fod ganddo gyfrifoldeb hefyd i ddarparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu gwybodaeth o fewn y cynnig i adroddiadau arolygon diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol.

**Agweddau addysgiadol y cynnig**

Mae'r cynigydd wedi rhoi crynodeb cryno o effaith y newid ar ansawdd a safon addysg. Mae'n nodi o dan y trefniadau tymor byr, pan fydd y ddwy ysgol yn uno ond yn aros ar safleoedd ar wahân, na fydd yna unrhyw newid i'r safonau addysgol a gaiff eu darparu ar gyfer disgyblion yn gyffredinol.

Mae'n nodi'n gryno y bydd adeiladu ysgol newydd fodern yn hybu lles y staff a'r myfyrwyr drwy ddarparu mynediad at adnoddau a chyfleusterau a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg ac yn meithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu.

Bydd dyluniad yr ysgol newydd yn ymgorffori mewnbwn gan fudd-ddeiliaid yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer ei chwricwlwm a'i hethos cyffredinol, a thrwy hynny o bosibl sicrhau y bydd yr ysgol yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar les myfyrwyr a'u cyfranogiad wrth ddysgu. Mae'r cynnig yn cadarnhau y bydd yr ysgol newydd yn rhoi gwell mynediad i ddisgyblion a staff at adnoddau a chyfleusterau gan gysylltu hyn gyda gwella'r profiadau addysgu a dysgu cyffredinol.  Yn ogystal â hynny mae'r cynigydd yn datgan y bydd yr ysgol yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol ac ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd.

**ATODIAD H**

Yr ymateb i'r cynnig a dderbyniwyd gan undeb athrawon yr Undeb Addysg Cenedlaethol ar ran yr aelodau o staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry.

national education union cymru

# Yr Undeb Addysg Cenedlaethol Rhanbarth Sir y Fflint

Ysgrifennydd Rhanbarth a Changen: Cheryl Latham
E-bost: cheryl.latham@neu.org.uk

14.07.2025

Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) yn credu fod pob plentyn yn haeddu mynediad i addysg gynhwysol o ansawdd uchel a gydag adnoddau llawn yn eu cymuned leol. Mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg wedi ei wreiddio yn egwyddorion tegwch, cyfle a lles ar gyfer pob dysgwr.

Rydym wedi ymrwymo i:
- Amddiffyn hawl pob plentyn i gael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel, sy'n meithrin a sy'n eu hysgogi.
- Cefnogi ysgolion lleol fel asedau cymunedol hanfodol sy'n meithrin y synnwyr o berthyn, hunaniaeth a dysgu gydol oes.
- Gwrthwynebu anghydraddoldeb addysgol, yn arbennig pan fo cynigion yn effeithio plant o gefndiroedd difreintiedig yn anghyfartal neu'r rhai hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau fod penderfyniadau yn ymwneud ag adrefnu ysgolion yn cael eu gwneud yn dryloyw, yn ddemocrataidd ac er y lles gorau i ddisgyblion, staff a chymunedau - ac nid wedi eu gyrru gan gyfleustra ariannol neu weinyddol yn unig.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydym yn galw ar Gyngor Sir y Fflint i gynnal y gwerthoedd hyn a gosod anghenion plant, teuluoedd ac addysgwyr yn graidd i'r broses o wneud penderfyniadau.

Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad – Adrefnu Ysgol Saltney

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb ffurfiol i'r cynllun arfaethedig i adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Nid yw Undeb Addysg Cenedlaethol Sir y Fflint yn gweld unrhyw fudd addysgol i'r cynigion. Dim ond cael effaith niweidiol ar addysg a newidiadau bywyd disgyblion yn yr ardal fydd y newidiadau arfaethedig yn ein barn ni.

Mae'r staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry wedi gweithio'n galed i wella presenoldeb yn yr ysgol. Maent yn gwybod na fydd nifer yn teithio i'r safle newydd arfaethedig yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Fe fyddant yn cael eu colli o ran addysg ffurfiol.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry, gan gynnwys y fferm sydd newydd ei sefydlu, yn gwasanaethu'r disgyblion yn dda. Mae maint yr ysgol hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae

gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 44% o ddisgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 33% Gynlluniau Datblygu Unigol.

Hefyd mae gan Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gyfleusterau rhagorol i ddarparu ar gyfer anghenion ei disgyblion. Mae 37% o ddisgyblion yr ysgol yn cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 24% Gynlluniau Datblygu Unigol. Mae’r disgyblion yn cael y gefnogaeth maent ei angen. Ni fyddant yn cael yr un lefel o gefnogaeth a sylw mewn ysgol fwy.

Mae maint yr ysgol a’r syniad o leoedd dros ben (er bod ymweliad â’r ysgol yn awgrymu eu bod yn berffaith ar gyfer y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr) yn cael ei bortreadu fel gwendid tra’i fod yn gryfder. Nid ydym yn ystyried ysgolion bach iawn gyda nifer y disgyblion prin yn ddigid dwbl. Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 134 ar y gofrestr ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood 171.

Y broblem arferol gydag ysgolion llai - o safbwynt awdurdodau lleol - yw bod y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch nac mewn ysgolion mwy. Nid yw hyn yn wir yn achos ysgolion Saltney gan fod y ddwy ysgol yn derbyn cyllid fesul disgybl sy’n is na’r cyfartaledd ar gyfer Sir y Fflint.

Hefyd mae’r cyllid refeniw wedi ei gyfuno ar gyfer y ddwy ysgol yn £1,521,503. Byddai’r cyllid refeniw arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn £1,554,417. Felly ni fyddai unrhyw arbediad o ran gwariant refeniw.

Dylai’r awdurdod lleol ddefnyddio gwariant cyfalaf i wneud gwelliannau i’r ddau safle. Byddai hyn yn sylweddol lai na’r gwariant cyfalaf ar adeilad newydd (er gwaethaf unrhyw arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru). Byddai hyn yn costio llai ac yn adeiladu ar gryfderau presennol y ddwy ysgol heb danseilio addysg y disgyblion.

Rydym yn bryderus iawn am ddiogelwch llwybrau teithio. Mae’r cynnig yn cymryd fod yna lwybrau cerdded diogel yn bodoli ond mae’n ddiffygiol o ran archwiliadau diogelwch neu asesiadau traffig. Byddai’r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn golygu fod plant sy’n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn gorfod cerdded (neu feicio neu fynd ar sgwter) ar hyd un o’r prif ffyrdd cymudo sy’n cysylltu Sir y Fflint gyda Swydd Gaer. Mae swyddogion o’r Undeb Addysg Cenedlaethol wedi ymweld â’r ddwy ysgol ac mae’r peryglon posibl yn sylweddol.

| Sylw’r Undeb Addysg Cenedlaethol | Ymateb CSyFf |
|---|---|
| Nid yw Undeb Addysg Cenedlaethol Sir y Fflint yn gweld unrhyw fudd addysgol i’r cynigion. Dim ond cael effaith niweidiol ar addysg a newidiadau bywyd disgyblion yn yr ardal fydd y newidiadau arfaethedig yn ein barn ni. | Barn y Cyngor yw y bydd y cynigion yn cryfhau addysg yn yr ardal drwy roi mynediad i ddisgyblion i gyfleusterau modern, cwricwlwm ehangach a mwy hyblyg ac ystod gyfoethocach o gyfleoedd dysgu ac allgyrsiol. Byddant hefyd yn sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau, gan gefnogi mwy o sefydlogrwydd o ran staffio a gwella cynaliadwyedd hirdymor. Gyda’i gilydd mae’r newidiadau hyn wedi eu dylunio i godi safonau a rhoi’r cyfleoedd gorau posibl i ddisgyblion ffynnu. |
| Mae’r staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry wedi gweithio’n galed i wella presenoldeb yn yr ysgol. Maent yn gwybod na fydd nifer yn teithio i’r safle newydd arfaethedig yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Fe fyddant yn cael eu colli o ran addysg ffurfiol. | Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi’r gwaith mae staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry wedi ei wneud i wella presenoldeb ac ymgysylltiad. Mae’r cynigion wedi eu dylunio i adeiladu ar yr ymrwymiad hwnnw drwy ddarparu cyfleusterau modern gyda llawer o adnoddau i ddisgyblion sy’n cefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Rydym yn credu y bydd amgylchedd newydd yr ysgol, wedi ei gyfuno gyda chyfleoedd cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd ehangach, yn helpu i gynnal a gwella presenoldeb ymhellach. Bydd y Cyngor, gan weithio gyda’r ysgolion hefyd, yn gweithio’n agos gyda theuluoedd a’r gymuned i gynnal y pontio a |

| | |
|---|---|
| | sicrhau nad oes yna unrhyw ddisgybl yn cael ei golli i addysg o ganlyniad i'r newidiadau hyn. |
| Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry, gan gynnwys y fferm sydd newydd ei sefydlu, yn gwasanaethu'r disgyblion yn dda. Mae maint yr ysgol hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 44% o ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 33% Gynlluniau Datblygu Unigol. | Nid yw'r fferm wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor. Mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â chydymffurfedd gyda safonau iechyd, diogelwch a diogelu. Heb gymeradwyaeth swyddogol, mae ei hyfywedd hirdymor a'i hintegreiddiad i'r cwricwlwm yn ansicr.<br><br>Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau o adleoli i safleoedd newydd, gan sicrhau pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys gwella'r cymorth i ysgolion a'r holl ddysgwyr, gyda mesurau wedi eu teilwra fel ymweliadau amser tawel, crwydro adeiladau rhithiol ac ymweliadau wedi eu rheoli â safleoedd adeiladu - wedi eu dylunio'n bennaf i helpu dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol i addasu'n llyfn. |
| Hefyd mae gan Ysgol Gynradd Saltney Wood gyfleusterau rhagorol i ddarparu ar gyfer anghenion ei disgyblion. Mae 37% o ddisgyblion yr ysgol yn cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 24% Gynlluniau Datblygu Unigol. Mae'r disgyblion yn cael y gefnogaeth maent ei angen. Ni fyddant yn cael yr un lefel o gefnogaeth a sylw mewn ysgol fwy. | Mae'n bwysig cydnabod fod nifer o ysgolion mwy yn meithrin amgylcheddau cynhwysol yn gyson lle mae perthnasoedd cryf yn ffynnu a lle caiff anghenion unigol eu bodloni'n effeithiol. Nid dim ond mewn ysgolion bach y ceir y rhinweddau hyn, maent yn nodwedd o arfer da, waeth beth fo maint yr ysgol.<br><br>Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau o adleoli o leoliadau llai i safleoedd newydd mwy. Os caiff newidiadau eu hystyried, fe fyddem yn archwilio dulliau gydag arweinyddiaeth yr ysgol i gynnal yr ethos hwn o gymunedau dysgu bach o fewn lleoliadau mwy. |
| Mae maint yr ysgol a'r syniad o leoedd dros ben (er bod ymweliad â'r ysgol yn awgrymu eu bod yn berffaith ar gyfer y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr) yn cael ei bortreadu fel gwendid tra'i fod yn gryfder. Nid ydym yn ystyried ysgolion bach iawn gyda nifer y disgyblion prin yn ddigid dwbl. Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 134 ar y gofrestr ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood 171. | Rydym yn cydnabod cryfderau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac ymroddiad eu staff. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd niferoedd y disgyblion ar draws yr ardal yn gostwng, gan greu lefelau cynyddol o leoedd dros ben dros amser. Mae hyn yn arwain at heriau o ran cynnal cyllidebau cynaliadwy a sicrhau'r cynnig ehangaf posibl o ran y cwricwlwm. Mae'r cynigion yn anelu i ddod â disgyblion ynghyd mewn ysgol fodern, addas i'r diben sy'n gallu darparu cyfleusterau o ansawdd uchel, ystod eang o gyfleoedd dysgu a sefydlogrwydd hirdymor. Bydd hyn yn sicrhau yr adeiladir ar y cryfderau presennol ac y bydd disgyblion yn parhau i elwa o'r amgylchedd addysgol gorau posibl. |

| | |
|---|---|
| Y broblem arferol gydag ysgolion llai - o safbwynt awdurdodau lleol - yw bod y cyllid fesul disgybl yn sylweddol uwch nac mewn ysgolion mwy. Nid yw hyn yn wir yn achos ysgolion Saltney gan fod y ddwy ysgol yn derbyn cyllid fesul disgybl sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir y Fflint.<br>Hefyd mae'r cyllid refeniw wedi ei gyfuno ar gyfer y ddwy ysgol yn £1,521,503. Byddai'r cyllid refeniw rhagamcanol ar gyfer yr ysgol newydd yn £1,554,417. Felly ni fyddai unrhyw arbediad o ran gwariant refeniw. | Byddai'r dyraniad cyllid rhagamcanol ar gyfer ysgol newydd yn cael ei seilio ar niferoedd y disgyblion ar gapasiti llawn, yn unol â fformiwla gyllido ysgolion y Cyngor. Fel gyda phob ysgol pe byddai nifer y disgyblion yn gostwng yn is na'r capasiti, byddai lefel y cyllid refeniw yn gostwng yn unol â hynny, gan sicrhau tegwch ar draws system yr ysgolion. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethwyr a staff i gefnogi cynllunio ariannol a sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio at gynnal darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr. |
| Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio gwariant cyfalaf i wneud gwelliannau i'r ddau safle. Byddai hyn yn sylweddol lai na'r gwariant cyfalaf ar adeilad newydd (er gwaethaf unrhyw arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru). Byddai hyn yn costio llai ac yn adeiladu ar gryfderau presennol y ddwy ysgol heb danseilio addysg y disgyblion. | Ni fyddai gwella'r ysgolion presennol i safon briodol yn sicrhau cyllid o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn hytrach na hynny byddai'n dibynnu ar Raglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw y Cyngor, sy'n strategaeth fwy cyfyngedig o ganlyniad i'w gyllid sylweddol is a gaiff ei ddyrannu ar draws y rhwydweithiau ysgol yn ôl blaenoriaethau cyflwr. Yn aml mae adeiladau hŷn yn gofyn am atgyweiriadau aml a chostus o ran y gwaith plymio, y to, y system wresogi a'r systemau trydanol, gan roi straen gynyddol ar adnoddau. Mewn cyferbyniad â hynny byddai buddsoddi mewn ysgolion modern, sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol, yn cynnig gwerth hirdymor. Mae'r adeiladau hyn wedi eu dylunio ar gyfer cynaliadwyedd ac yn cynnwys gwell inswleiddio, paneli solar, systemau ynni clyfar ac yn bwysicach na dim byddant yn gweithredu yn ddi-garbon net. Maent nid yn unig yn lleihau costau cyfleustodau, ond maent hefyd yn creu amgylcheddau dysgu mwy effeithlon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| Rydym yn bryderus iawn am ddiogelwch llwybrau teithio. Mae'r cynnig yn cymryd fod yna lwybrau cerdded diogel yn bodoli ond mae'n ddiffygiol o ran archwiliadau diogelwch neu asesiadau traffig. Byddai'r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn golygu y byddai plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn gorfod cerdded (neu feicio neu fynd ar sgwter) ar hyd un o'r prif ffyrdd cymudo sy'n cysylltu Sir y Fflint gyda Swydd Gaer. Mae swyddogion o'r Undeb Addysg Cenedlaethol wedi ymweld â'r ddwy ysgol, wedi gwneud y daith, ac mae'r peryglon posibl yn sylweddol. | Bydd adolygiad cynhwysfawr o isadeiledd presennol y ffyrdd yn cael ei gynnal fel rhan o asesiad ffurfiol o lwybrau cerdded diogel. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad manwl o ddiogelwch y ffyrdd, croesfannau i gerddwyr a hygyrchedd cyffredinol y safle newydd arfaethedig. Mae'r asesiadau hyn yn hanfodol i sicrhau, pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, fod trefniadau priodol a diogel mewn grym ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd. |

## ATODIAD I

Yr ymateb i'r cynnig a baratowyd ar gyfer Cyngor Tref Saltney ac a dderbyniwyd ganddynt.

17 July 2025

Dear Sir/Madam

**SALTNEY TOWN COUNCILS RESPONSE TO THE REORGANISATION OF SALTNEY FERRY COUNTY PRIMARY SCHOOL AND WOOD MEMORIAL COUNTY PRIMARY SCHOOL**

Saltney Town Council at its meetings held on11 June and 9 July 2025, considered the Consultation document for the proposal to Reorganise Saltney Ferry County Primary School and Wood Memorial County Primary School, with a view to opening a new maintained community school operating on the current two sites whilst a new building is approved and constructed.

Saltney Town Council strongly objects to the above proposal on the following grounds:-

- There is no safe route to school included for the children from Saltney Ferry County Primary school travelling to the new proposed new site.
- Propose both schools remain and are individually modernised
- Funding issues – where will the funding go for each child (i.e. will it go with child or stay with the school)
- No account has been considered in the proposal to reorganise both schools the pupil numbers increase at both schools
- School Transport should be made available for those young pupils travelling from Saltney Ferry County Primary School to the new proposed new site.
- Request that a Senedd member visit both schools prior to the decision being made
- Plan/footprint be made available at the earliest convenience to the public

Therefore, Saltney Town Council **strongly objects** to the proposal to Reorganise Saltney Ferry County Primary School and Wood Memorial County Primary School for the reasons outlined above. We would recommend that going forward both schools remain and are individually modernisied.

Yours faithfully

Councillor Ros Griffiths

**Mayor Saltney Town Council**
*(on behalf of Town Council)*

Tracey Brown, Town Clerk and Responsible Financial Officer, Saltney Town Council,
Suite 15, Riverside House, River Lane, Saltney, Flintshire, CH4 8RQ.
Tel 01244 398829 or Email townclerk@saltneytowncouncil.gov.uk

| **Sylw Cyngor Tref Saltney** | **Ymateb CSyFf** |
|---|---|
| Nid oes yna lwybr diogel i'r ysgol wedi ei gynnwys ar gyfer y plant o Ysgol Gynradd Saltney Ferry sy'n teithio i'r safle newydd arfaethedig. | Bydd adolygiad cynhwysfawr o isadeiledd presennol y ffyrdd yn cael ei gynnal fel rhan o asesiad ffurfiol o lwybrau cerdded diogel. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad manwl o ddiogelwch y ffyrdd, croesfannau i gerddwyr a hygyrchedd cyffredinol y safle newydd arfaethedig. Mae'r asesiadau hyn yn hanfodol i sicrhau, pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, fod trefniadau priodol a diogel mewn grym ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd. |
| Mae'n cynnig fod y ddwy ysgol yn parhau ac yn cael eu moderneiddio'n unigol. | Ni fyddai gwella'r ysgolion presennol i safon briodol yn sicrhau cyllid o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn hytrach na hynny byddai'n dibynnu ar Raglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw y Cyngor, sy'n strategaeth fwy cyfyngedig o ganlyniad i'w gyllid sylweddol is a gaiff ei ddyrannu ar draws y rhwydweithiau ysgol yn ôl blaenoriaethau cyflwr. Yn aml mae adeiladau hŷn yn gofyn am atgyweiriadau aml a chostus o ran y gwaith plymio, y to, y system wresogi a'r systemau trydanol, gan roi straen gynyddol ar adnoddau. Mewn cyferbyniad â hynny byddai buddsoddi mewn ysgolion modern, sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol, yn cynnig gwerth hirdymor. Mae'r adeiladau hyn wedi eu dylunio ar gyfer cynaliadwyedd ac yn cynnwys gwell inswleiddio, paneli solar, systemau ynni clyfar ac yn bwysicach na dim byddant yn gweithredu yn ddi-garbon net. Maent nid yn unig yn lleihau costau cyfleustodau, ond maent hefyd yn creu amgylcheddau dysgu mwy effeithlon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| Problemau cyllid - lle bydd y cyllid yn mynd ar gyfer pob plentyn (h.y. a fydd yn mynd gyda'r plentyn neu'n aros<br>gyda'r ysgol) | Yn Sir y Fflint penderfynir ar gyllid ysgolion gan fwyaf drwy'r fformiwla gyllido a arweinir gan y disgybl, sy'n golygu fod cyllid yn dilyn pob plentyn. Pan fo plentyn yn symud o un ysgol i'r llall, mae'r adnoddau sy'n gysylltiedig â'r disgybl hwnnw yn cael eu dyrannu i'r ysgol newydd i gefnogi eu haddysg. Mae'r cynigion yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn parhau i dderbyn y cyllid a'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddo tra hefyd caniatáu'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon i gynnal addysgu a dysgu o ansawdd uchel i bawb. |
| Nid oes unrhyw gyfrif wedi ei ystyried yn y cynnig i adrefnu'r ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn cynyddu yn y ddwy ysgol. | Mae cwmpas yr ysgol newydd arfaethedig ar hyn o bryd wedi ei bennu yn dilyn dadansoddiad demograffaidd cynhwysfawr, gan gynnwys y tueddiadau o ran tai a chyfraddau geni. Mae capasiti wedi ei gynllunio i fodloni anghenion presennol a'r anghenion a ragwelir yn y dyfodol, gyda hyblygrwydd i addasu os yw'r galw yn newid.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i alluogi ehangu yn y dyfodol os oes angen, gan gynnwys y potensial ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer dosbarthiadau neu gyfleusterau ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau y gall yr ysgol ymateb i unrhyw gynnydd annisgwyl yn niferoedd y disgyblion. |
| Dylai cludiant i'r ysgol fod ar gael ar gyfer y disgyblion ifanc hynny sy'n teithio o Ysgol Gynradd Saltney Ferry i'r safle newydd arfaethedig. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd cludiant diogel a dibynadwy i ddisgyblion. Pan fo disgyblion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant i'r ysgol, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gefnogi teithio rhwng Ysgol Gynradd Saltney Ferry a'r safle newydd arfaethedig. Yn seiliedig ar ddata disgyblion presennol, nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn gymwys am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, gan fod gan y rhai hynny sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol y dewis o ysgol gymwys arall sydd wedi ei lleoli yn nes at eu cyfeiriad cartref. |
| Cais fod Aelod o'r Senedd yn ymweld â'r ddwy ysgol cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. | Rydym yn croesawu diddordeb cynrychiolwyr etholedig lleol yn y broses ymgynghori. Er nad yw ymweliadau ffurfiol gan Aelodau o'r Senedd yn ofyniad statudol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod gan yr holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig, y cyfle i weld yr ysgolion a thrafod y cynigion gyda staff a'r Awdurdod Lleol. |
| Bod cynllun ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n gyfleus. | Rydym wedi ymrwymo i gynnal tryloywder yn ystod y broses ymgynghori. Bydd cynlluniau a phatrwm yr ysgol ar gael i'r cyhoedd unwaith y bydd y cynigion wedi eu cwblhau ac y bydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud. |

**Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses hon.**